ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig i Ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

Medi 2026

Cynnwys

Rhif/au	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad	4
2	Y Cynnig a'r Ymgynghoriad	4
3	Digwyddiadau / Cyfarfodydd Ymgynghori	5
4	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
5	Ymateb Disgyblion Ysgol	6
6	Ymateb gan Estyn (Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)	7
7	Ffurflenni ymateb safonol	14
8	Themâu ymateb	16
9	Camau Nesaf	27
Atodiad A	Rhestr o'r holl fudd-ddeiliaid a dderbyniodd ddogfennau'r ymgynghoriad.	29
Atodiad B	Yn dangos sut mae ymatebwyr o wahanol ysgolion yn cefnogi'r cynnig.	31
Atodiad C	Yn dangos y diddordeb/y berthynas sydd gan yr ymatebwyr gyda'r ysgol y maent yn cysylltu eu hunain â hi.	32
Atodiad D	Archwiliad o'r ymatebion gan grwpiau amrywiol o ymatebwyr yn ymwneud â'r cynnig.	33
Atodiad E	Dadansoddiad o ymatebion i'r cwestiynau yn ymwneud â'r Effaith ar y Gymraeg.	35
Atodiad F	Archwiliad o'r ymatebion o ddigwyddiadau ymgynghori Cyngor yr Ysgol a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, yn ogystal â Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint.	38
Atodiad G	Yr ymateb i'r cynnig a baratowyd ar gyfer Estyn ac a dderbyniwyd gan Estyn.	45
Atodiad H	Yr ymateb i'r cynnig a gafwyd gan Undeb Addysg Cenedlaethol.	49

Atodiad I	Yr ymateb i'r cynnig a gafwyd gan Rieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)	51

Caiff y ddogfen hon ei chyhoeddi ar ffurf copi caled, os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi o'r ddogfen ar ffurf wahanol er enghraifft braille neu brint bras, neu os oes angen cymorth arnoch gyda dehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704018 / 704014, neu e-bostiwch saltneyconsultations@flintshire.gov.uk.

1. Cyflwyniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ynglŷn â threfniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
- ymateb i'r rhain trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi;
- amlinellu ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- ymateb i ymateb Estyn trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.

1.2 Dylai'r canlyniadau o'r broses ymgynghori gael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu ar unrhyw argymhelliad i gychwyn y cam nesaf ac i gyhoeddi hysbysiad statudol i fynd i gyfnod 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau i'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ar ddydd Mercher 13 Mai 2026, penderfynodd y Cabinet:

Agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer cynnig i gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir ar gyfer disgyblion 3-11 oed a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

2.2 Mae'r Cyngor yn cynnig cyflawni'r newid hwn mewn trefniadaeth drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Agor ysgol gynradd gyfunol ar gyfer disgyblion 3-11 oed ar y ddau safle presennol i ddechrau, tra bydd adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.
- Agor Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3–11 oed, gyda chapasiti ar gyfer 315 o leoedd llawn amser, ar y safle lle mae Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd. Byddai gan yr ysgol Rif Derbyn Disgyblion o 45 fesul grŵp blwyddyn, gan ei gwneud yn ysgol fynediad un a hanner dosbarth.

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026. Bu'r ymgynghoriad yn para o ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026, tan ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026.

2.4 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o'r rhai a gafodd y dogfennau i'w gweld yn **Atodiad A**.

2.5 Roedd fersiynau o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn addas i oed plant a phobl ifanc hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint, yn ogystal â dogfen gryno 'Hawdd i'w Darllen' yn crynhoi'r pwyntiau allweddol o'r brif ddogfen ymgynghori. Mae holl fersiynau'r

dogfennau ymgynghori ar gael yn yr adran Moderneiddio Ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

2.6 Dosbarthwyd copïau caled o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood i bobl eu gweld os nad oedd ganddynt fynediad i'r wefan. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

2.7 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, i allu cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.8 Lluniodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd y ffurflen yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys ffurflen ymateb wedi ei haddasu ac a oedd yn haws i'w defnyddio. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei thrawsnewid yn arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn ar-lein Smart Survey. Cyhoeddwyd y dolenni i'r arolwg a chod QR hefyd ar y wefan yn ystod y cyfnod ymgynghori.

2.9 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn **Atodiad A** e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, a hefyd dolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad sef 16 Mehefin 2026.

2.10 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.0 Digwyddiadau / cyfarfodydd ymgynghori

3.1 Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar gyfer staff a llywodraethwyr ar-lein ar gyfer pob ysgol ddydd Mawrth, 16 Mehefin 2026. Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus. Er mwyn manteisio ar hygyrchedd ac ymgysylltu, cafodd ymgyngoreion amrywiaeth o gyfleoedd amgen i gyflwyno sylwadau a chwestiynau, yn cynnwys arolwg ymgynghori ar-lein, cyfeiriad e-bost penodol ar gyfer yr ymgynghoriad, sylwadau ysgrifenedig a chyswllt uniongyrchol gyda swyddogion trwy gydol y cyfnod ymgynghori.

4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.1 Casglodd y Cyngor 221 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda 217 yn cael eu cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein. Hefyd derbyniwyd tri ymateb gan Estyn, RhAG a'r Undeb Addysg Cenedlaethol, yn ychwanegol at un gŵyn ar e-bost.

4.2 Trefnwyd sesiwn ymgynghori ar gyfer disgyblion ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae canfyddiadau'r sesiynau i'w gweld yn **Atodiad F.**

4.3 Yn ogystal, cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn, mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w weld yn **Atodiad G**.

4.4 Mae sylwadau a ddarparwyd gan yr Undeb Athrawon Cenedlaethol a RhaG wedi eu cynnwys o fewn y dadansoddiad o themâu cyffredinol yr adborth i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi eu nodi yn **Atodiad H** ac **Atodiad I**.

4.5 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan bobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb Safonol i'r Ymgynghoriad (ar-lein)	217
Ffurflenni Ymateb Safonol i'r Ymgynghoriad (papur)	0
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc (casglwyd ymatebion gan y ddwy ysgol yn ystod eu digwyddiadau ymgynghori)	0
Llythyrau a Negeseuon E-bost (cwynion)	1
Llythyrau a Negeseuon E-bost Plant a Phobl Ifanc	0
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgol (dim ymateb ffurfiol gan y Cyrff Llywodraethu ond llenwodd rhai Llywodraethwyr y ffurflen ar-lein a gyfrifwyd uchod)	0
Ymateb yr Undeb	1
Ymateb RhAG	1
Ymateb Estyn	1
Deisebau Ar-lein	0
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	0
Ymateb Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol	0
Cyfanswm y cysylltiadau	**221**

5.0 Ymateb Disgyblion Ysgol

5.1 Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori i gael llais y disgybl yn y ddwy ysgol gynradd. Cafodd y sesiynau hyn eu hwyluso gan Dîm Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint. Cynhaliodd y ddwy ysgol sesiynau gyda chynrychiolwyr o grwpiau blwyddyn amrywiol, wedi eu cynorthwyo gan aelod o staff. Derbyniodd y plant grynodeb o'r cynnig ac yna cawsant eu gwahodd i rannu eu hadborth cadarnhaol a negyddol, gydag unrhyw awgrymiadau amgen. **Appendix F.**

5.2 Hefyd cafodd aelodau o Fforwm Sir y Fflint Ifanc, sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Ieuenctid Sir y Fflint a Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt o Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint, y cyfle i roi adborth yn ystod sesiwn a gynhaliwyd yn Nhŷ Dewi Sant ar 24 Mehefin 2026. Mae'r canlyniadau wedi eu nodi yn **Atodiad F.**

5.3 Mae'r Cyngor yn rhoi pwys mawr ar y farn a fynegwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r canfyddiadau manwl o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac aelodau o Fforwm Sir y Fflint Ifanc wedi'u nodi yn **Atodiad F.**

Fe soniodd disgyblion o'r ddwy ysgol am nifer o fanteision posibl yn gysylltiedig â'r cynnig, yn cynnwys mynediad i gyfleusterau modern, amgylcheddau dysgu mwy, adnoddau gwell, mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon, a'r cyfle i feithrin cyfeillgarwch newydd.

Mynegodd ddisgyblion bryder ynghylch effaith newid, trefniadau teithio, gadael athrawon a ffrindiau cyfarwydd, addasu i amgylchedd newydd ac ansicrwydd ynghylch trefniadau pontio.

Thema gyson i ddod i'r amlwg o'r trafodaethau oedd y gwerth y mae disgyblion yn ei roi ar eu cymunedau ysgol presennol a'r perthnasoedd maent wedi'u eu meithrin yno.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y farn yma'n ofalus tra'n asesu'r cynnig ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi lles dysgwyr, cynnal trefniadau pontio effeithiol a chadw cryfderau a hunaniaeth cymunedau presennol y ddwy ysgol ar gyfer unrhyw broses weithredu yn y dyfodol.

5.4 Bydd crynodeb sy'n briodol i oedran o'r Adroddiad Ymgynghori yma'n cael ei lunio a'i rannu gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd y crynodeb yn cael ei ddylunio i sicrhau bod plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn gallu deall canlyniadau'r ymgynghoriad, a sut mae eu barn wedi cael ei ystyried yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

6.0 Ymateb Estyn

6.1 Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt isod. Mae'r ymateb llawn a dderbyniwyd gan Estyn i'w weld yn **Atodiad G**.

Sylwadau Estyn	**Ymateb CSyFf**
Barn Estyn yw fod y cynnig yn debygol o gynnal, o leiaf, safonau presennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.	**Nodwyd**
Mae'r cynigydd wedi rhoi rhesymeg glir dros y cynnig. Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro fod y cynnig wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag mewn ysgolion, gwella, ansawdd adeiladau ysgolion, sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy, datblygu'r Gymraeg ymhellach a gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae hefyd yn nodi twf cyfyngedig disgyblion yn y dyfodol yn yr ardal, gan ddarparu cyfiawnhad clir dros aildrefnu darpariaeth. Mae'r cynigydd wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig, yr amserlen a ragwelir ar gyfer gweithdrefnau a gweithredu statudol, a threfniadau dros dro sy'n angenrheidiol i'w gweithredu. Mae hefyd yn nodi'r amserlen ymgynghori statudol, y broses gwneud penderfyniadau ac mae'n egluro y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu ar draws y ddwy safle dros dro. Mae'r cynigydd wedi nodi'n glir ac yn deg y manteision ac anfanteision disgwyliedig o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r ddogfen yn nodi manteision addysgiadol, sefydliadol ac ariannol disgwyliedig y cynnig, tra'n cydnabod anfanteision posibl, yn cynnwys amhariaeth yn	**Nodwyd**

ystod y cyfnod pontio, goblygiadau staffio a newidiadau i drefniadau teithio i rai teuluoedd.	
Mae'r cynigiydd wedi nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag addasrwydd y cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn nodi prif risgiau'r prosiect, yn cynnwys ariannu, cynllunio, adeiladu, staffio a chydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae'n ymddangos bod y cynigydd yn cynnig mesurau lliniaru priodol i leihau effaith risgiau. Serch hynny, tra bod y cynnig yn nodi y bydd cyllid a chynllunio yn parhau i gael ei adolygu, nid yw'n ymddangos bod y cynigydd yn amlinellu beth fyddai'n digwydd os na fydd cyllid digonol yn cael ei sicrhau yn y pendraw.	Mae'r Cyngor yn cydnabod sylwadau Estyn o ran yr angen am fwy o eglurder os na fydd cyllid digonol yn cael ei sicrhau. Mae'r cynnig yn parhau'n ddibynnol ar gymeradwyo cyllid cyfalaf drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a Rhaglen Gyfalaf gymeradwy'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro trefniadau ariannol trwy gydol y broses ddatblygu. Ni fyddai'r cynnig yn symud ymlaen i gael ei roi ar waith oni bai bod pecyn ariannu hyfyw a fforddiadwy wedi cael ei sicrhau. Os na fydd y cyllid angenrheidiol ar gael, byddai'r Cyngor yn adolygu'r sefyllfa, yn ystyried dewisiadau amgen ac yn penderfynu a ddylid llunio cynigion sefydliadol ysgol pellach. Byddai unrhyw benderfyniadau dilynol yn amodol ar brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau priodol. Mae'r Cyngor yn parhau'n fodlon fod trefniadau rheoli prosiect a risg priodol ar waith er mwyn monitro a rheoli risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig.
Mae'r cynigydd wedi ystyried dewisiadau amgen addas i'r cynnig ac wedi rhoi rhesymau pam fod y rhain wedi cael eu diystyru. Mae'r ddogfen yn egluro fod sawl opsiwn, yn cynnwys cadw ac adnewyddu'r ysgolion presennol wedi cael eu hystyried. Fe ddaw i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yma'n mynd i'r afael yn ddigonol ag adeiladau sy'n dirywio, lleoedd gwag, cynaliadwyedd hirdymor neu ddarparu mynediad i fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer cyfleusterau ysgol newydd. Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau a hygyrchedd	**Nodwyd**

darpariaeth teithio dysgwyr. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys asesiad manwl o bellteroedd teithio, llwybrau cerdded diogel a chymhwysedd am gludiant. Daeth i'r casgliad y byddai mwyafrif dysgwyr yn parhau o fewn pellter cerdded i'r ysgol arfaethedig ac y byddai trefniadau cludiant presennol yn parhau i fod yn berthnasol, yn cynnwys ystyried anghenion ychwanegol dysgwyr unigol. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymol. Mae'r cynigydd wedi dangos yn glir sut y bydd lleoedd gwag yn cael eu heffeithio. Mae'r ddogfen yn darparu niferoedd disgyblion presennol a niferoedd disgyblion a ragwelir ac mae'n dangos y byddai uno'r ddwy ysgol yn lleihau lleoedd gwag yn sylweddol ac yn creu darpariaeth sydd yn cyd-fynd yn agos â'r galw a ragwelir. Mae hefyd yn nodi'r risg fod y galw am leoedd yn cynyddu y tu hwnt i brosiectau presennol ac mae'n nodi y bydd dyluniadau adeiladu yn parhau'n hyblyg ac yn gallu cael eu haddasu yn y dyfodol.	
Mae'r cynigydd wedi amlinellu agweddau ariannol addasrwydd y cynnig, yn cynnwys cyllid a ragwelir gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor, yn gyfochrog ag arbedion posibl yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi buddsoddiad cyfalaf a ragwelir, trefniadau ariannu arfaethedig ac arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o lai o leoedd gwag. Serch hynny, er fod y ddogfen yn amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, nid yw'n amlinellu'n glir beth fydd yn digwydd os na ellir sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Yn ogystal, nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn dangos maint unrhyw arbedion refeniw parhaus unwaith y mae costau ariannu'r ysgol newydd wedi cael eu hystyried. Ar ben hynny, gan fod y gyllideb rhagamcanol ar gyfer yr ysgol newydd yn ymddangos yn eithaf cymharol â chyllidebau cyfunol presennol y ddwy ysgol bresennol, nid yw mantais ariannol gyffredinol y cynnig dros gadw a gwella'r adeiladau presennol yn ddigon clir.	Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau Estyn o ran yr angen am fwy o eglurder ar drefniadau ariannol a goblygiadau ariannol hirdymor y cynnig. Mae'r cynnig yn ddibynnol ar argaeledd cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a Rhaglen Gyfalaf gymeradwy y Cyngor. Os na fydd y cyllid angenrheidiol yn cael ei ddiogelu, byddai'r Cyngor yn adolygu'r sefyllfa ac ystyried dewisiadau amgen cyn symud ymlaen. Ni fyddai'r Cyngor yn gweithredu'r cynnig heb fod datrysiad hyfyw a fforddiadwy'n cael ei ganfod. Tra bod arbedion effeithlonrwydd ariannol yn cael eu rhagweld drwy gael gwared ar leoedd gwag a gweithredu un ysgol ar un safle, mae'r cynnig yn cael ei yrru gan ystyriaethau addysgiadol yn bennaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyllideb a ddirprwyir a ragwelir yr ysgol newydd yn cymharu'n eang â chyllidebau cyfunol yr ysgolion presennol. Serch hynny, byddai'r cynnig yn darparu manteision

	ehangach, yn cynnwys amgylcheddau dysgu modern, llai o ofynion cynnal a chadw, hygyrchedd gwell a model mwy cynaliadwy ar gyfer cyflawni addysg yn yr hirdymor. Mae'r Cyngor felly'n parhau'n fodlon bod y cynnig yn cynrychioli buddsoddiad priodol yn nyfodol darpariaeth addysg.
Mae'r cynigydd wedi darparu manylion trosglwyddo tir ac adeiladau posibl. Mae'r ddogfen yn egluro y bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac yn cadarnhau nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud o ran dyfodol safle Ysgol Gynradd Saltney Ferry, a fyddai'n cael ei ystyried ar wahân yn unol â pholisi'r Cyngor ar leoedd ar dir ac adeiladau gwag. Mae'r cynigydd wedi amlinellu'n glir sut y gall budd-ddeiliaid ymateb i'r cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r cyfnod ymgynghori, y dulliau ymateb, manylion cyswllt a phroses statudol ddilynol, yn cynnwys cyhoeddi adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol, cyfnod gwrthwynebu a threfniadau penderfyniadau terfynol. Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol. Y casgliad yn y ddogfen yw na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar ddarpariaeth y Gymraeg ac mae'n cadarnhau ymrwymiad parhaus y Cyngor i'w Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.	**Nodwyd**
Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar safon a safonau mewn addysg, yn cynnwys addysgu a dysgu. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried manteision addysgiadol y cynnig, yn cynnwys	**Nodwyd**

amgylcheddau dysgu gwell a mwy o gyfleoedd i rannu arferion effeithiol drwy un ysgol. Mae'n dod i'r casgliad bod disgwyl i'r newidiadau yma gynnal y safonau presennol yn rhesymol.	
Mae'r cynigydd wedi ystyried gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at gasgliadau o archwiliadau diweddaraf Estyn ac mae'n nodi bod y ddwy ysgol yn darparu safon da o addysg ar hyn o bryd. Serch hynny, nid yw'n ymddangos bod yr asesiad hwn yn cydnabod y pryderon hanesyddol sy'n ymwneud ag un o'r ysgolion sydd wedi'i chynnwys yn y cynnig. Mae'r ysgol wedi wynebu heriau sylweddol yn y gorffennol a dim ond yn ddiweddar y cafodd ei symud o orfod cael sesiynau dilynol gydag Estyn.	Mae'r risgiau a nodwyd mewn arolygon gofal blaenorol wedi cael eu lliniaru. Mae newidiadau yn arweinyddiaeth yr ysgol wedi cryfhau capasiti arweinyddiaeth, sydd yn parhau i ddatblygu'n effeithiol. Mae newidiadau diweddar i'r tîm arwain strategol a staffio yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau i ddeilliannau disgyblion. Mae uwch reolwyr yn cymryd rhan yng ngweithgareddau hunan-werthuso eang, gan sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer datblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio ar gyfer gwelliant a chynnal ffocws cryf ar godi safonau a gwella deilliannau i ddisgyblion. Mae tystiolaeth o werthusiadau yn dangos bod capasiti arweinyddiaeth wedi cryfhau ymhellach trwy ymgysylltu rheolaidd a strwythuredig. Mae arweinwyr wedi datblygu mwy o hyder a chywirdeb wrth werthuso darpariaeth a monitro cynnydd. Mae gweithgareddau hunan-werthuso ar y cyd, yn cynnwys teithiau dysgu, craffu gwaith disgyblion ac ymarferion llais y disgyblion, wedi helpu i sefydlu diwylliant cryfach o fyfyrio a gwelliant parhaus ar draws gwahanol lefelau o arweinyddiaeth. Mae arweinwyr yn dod yn gynyddol effeithiol yn adnabod cryfderau ac ardaloedd ar gyfer datblygu ac alinio eu casgliadau gyda blaenoriaethau Cynllun Datblygu'r Ysgol. Mae cyfranogiad rheolwyr canol a staff wrth gynllunio, monitro ac adolygu prosesau yn helpu i adeiladu capasiti arweinyddiaeth ehangach a chryfhau cyfrifoldeb i wella'r ysgol. Yn ychwanegol mae arweinwyr wedi

	dangos ffocws cynyddol ar wella darpariaeth, yn cynnwys yr amgylchedd dysgu, cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ac ymgysylltu â disgyblion, gan adlewyrchu pwyslais cryfach ar addysgeg a dylunio cwricwlwm. Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol, mae rhai anghysonderau'n parhau. Mae amrywioldeb wrth weithredu dulliau y cytunwyd arnynt, yn cynnwys arferion marcio a defnydd cyson o strategaethau megis '3 Before Me' yn awgrymu nad ydi prosesau monitro a gwerthuso wedi sicrhau dull cwbl gyson ar draws yr ysgol eto. Mae mynd i'r afael â'r anghysonderau hyn yn parhau'n gam nesaf pwysig i sicrhau bod gwelliannau mewn darpariaeth yn cael eu sefydlu a'u bod yn arwain at welliannau parhaus mewn canlyniadau i bob disgybl.
Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar arwain a gwella. Mae'r ymgynghoriad yn nodi addasrwydd manteision sefydlu un strwythur tîm arwain a llywodraethu i ddarparu mwy o gapasiti strategol a cynaliadwyedd hirdymor. Mae'n dod i'r casgliad y byddai hyn yn cryfhau gwelliant yr ysgol ac arweinyddiaeth ar draws yr ysgol newydd. Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith tebygol y cynigion ar allu'r ysgolion sy'n cael ei heffeithio gan y cynigion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn. Mae'r ymgynghoriad yn dod i'r casgliad y byddai'r ysgol newydd mewn sefyllfa well i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru drwy gyfleusterau ac adnoddau dysgu gwell. Mae hefyd yn ystyried yr effaith ar ysgolion cyfagos ac mae'n dod i'r casgliad fod capasiti digonol yn bodoli i ddelio ag unrhyw newidiadau yn newis rhieni. Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar les, gofal, cefnogaeth ac arweiniad. Mae'r ddogfen yn cydnabod y gallai ad-drefnu ysgolion achosi ansicrwydd i ddysgwyr a theuluoedd ac mae'n egluro y bydd trefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n ofalus i gefnogi lles disgyblion a sicrhau parhad gofal fugeiliol trwy gydol y broses.	**Nodwyd**

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar grwpiau diamddiffyn, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r ddogfen yn cynnwys ystyriaeth o ddysgwyr gydag ADY ac mae'n egluro y byddai dyletswyddau statudol yn parhau i fod yn berthnasol trwy gydol yr ad-drefnu. Mae'n cadarnhau y byddai anghenion unigol yn cael eu hasesu a'u cefnogi drwy'r broses gynllunio pontio ac mae'n cyfeirio at Asesiad o Effaith ar ADY ar wahân sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad. Mae'r cynigydd wedi ystyried sut y bydd amhariaeth ar ddysgwyr yn cael ei leihau. Mae'r ymgynghoriad yn egluro y bydd trefniadau pontio'n cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau cysondeb dysgu, lles a chefnogaeth fugeiliol. Mae hefyd yn nodi y byddai'r ysgol unedig yn gweithredu fel un ysgol gymunedol yn ystod y cyfnod dros dro, gan rannu arweinwyr, polisïau ac ethos, a byddai cynnydd yn cael ei fonitro trwy gydol y broses weithredu.	**Nodwyd**
Mae'r cynnig yn ystyried trefniadau aml safle dros dro yn ystod y broses bontio, ac mae'n egluro pam fod adnewyddu'r ysgolion presennol wedi cael ei ddiystyru. Er nad yw'r ddogfen yn ystyried modelau sefydliadol amgen yn benodol, megis trefniadau canolbwynt cymunedol neu gydleoli gwasanaethau cyhoeddus o fewn adeiladu'r ysgolion presennol, mae hyn yn ymddangos yn rhesymol o ystyried cyflwr presennol a materion addasrwydd a nodwyd ar y ddau safle.	**Nodwyd**

6.2 Mae ymateb Estyn yn nodi ei farn bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safonau presennol addysg a darpariaeth yn yr ardal.


7.0 Ffurflenni Ymateb Safonol

7.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i ganfod:


- ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb;
- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio, ac unrhyw sylwadau yr oeddent yn dymuno eu gwneud;
- yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- a oeddent am gael eu hysbysu am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori;
- Gwybodaeth am Gydraddoldeb.

7.2 Ar y ffurflenni ymateb gofynnwyd i bobl gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant/gofalwr, darpar riant/gofalwr, llywodraethwr, athro/athrawes, staff cefnogi, aelod o'r gymuned neu rywun arall. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad C**.

7.3 Cafwyd 47.93% o'r ymatebion cyffredinol gan rieni/gofalwyr presennol Ysgol Gynradd Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Ferry. Cafwyd 51.4% o'r ymatebion rhieni/gofalwyr presennol o Ysgol Gynradd Saltney Ferry tra cafwyd 42.2% o'r ymatebion rhieni/gofalwyr presennol o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.




7.4 Roedd 53% o'r ymatebwyr yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Saltney Ferry tra roedd 45.16% yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.



7.5 Roedd 87.56% o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r cynnig. Roedd 91.3% o'r ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig tra roedd 84.7% o'r ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney

Wood yn anghytuno gyda'r cynnig. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad B**.



7.6 Roedd 88.5% o'r rhieni/gofalwyr presennol yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig. Roedd 80% o ddarpar rieni yn anghytuno gyda'r cynnig fel roedd 100% o lywodraethwyr. Roedd 30% o athrawon/staff cefnogi yn cytuno gyda'r cynnig tra roedd 70% yn anghytuno. Roedd 40% o'r athrawon/staff cefnogi a oedd yn cytuno â'r cynnig yn cysylltu eu hunain gydag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Roedd 100% o'r athrawon/staff cefnogi o Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn anghytuno gyda'r cynnig. Amlinellir manylion pellach ynglŷn â'r ymatebwyr yn **Atodiad D**.

	What is your interest/relationship with the school/s you identify with?								
Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...		I am a parent/carer of a pupil at the school	I am a pupil at the school	I am a prospective parent/carer of a pupil at the school	I am a teacher/other member of staff at the school	I am a governor at the school	I am a member of the community	Other (please specify):	Row Totals
	Yes	12 11.5%	1 50.0%	2 20.0%	6 30.0%	0 0.0%	5 8.9%	1 5.0%	27 12.4%
	No	92 88.5%	1 50.0%	8 80.0%	14 70.0%	5 100.0%	51 91.1%	19 95.0%	190 87.6%
	Column Total	104 47.9%	2 0.9%	10 4.6%	20 9.2%	5 2.3%	56 25.8%	20 9.2%	217 100%

7.7 Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau ychwanegol ynglŷn ag a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Cafwyd 173 o sylwadau unigol. Mae dadansoddiad o amlder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau a'r rheiny gan Estyn, RhAG a'r Undeb Addysg Cenedlaethol isod. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio i'r categorïau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo / penderfynu arnynt.

8.0 THEMÂU YMATEB

Thema	Ymateb CSyFf
1. Pellter Teithio, Hygyrchedd a Diogelwch **Pwyntiau allweddol** • Mae'r ymatebwyr yn credu bod y safle arfaethedig yn rhy bell o Saltney Ferry i blant oedran cynradd. • Pryderon am ffyrdd prysur, palmentydd cul, mannau croesi a thywydd y gaeaf. • Diffyg hyder mewn llwybrau cerdded a threfniadau cludiant. • Pryderon i deuluoedd sydd heb fynediad at gar, neiniau a theidiau, gofalwyr a brodyr a chwiorydd iau. **Enghreifftiau** • *"Nid yw cerdded am 45 munud ar hyd ffordd fawr i blant Saltney Ferry yn ddiogel."* • *"Ni all plant o Saltney Ferry gerdded yn ddiogel o'u cartrefi i'r ysgol newydd arfaethedig."* • *"Byddai'r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn golygu y byddai plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn gorfod cerdded ar hyd un o'r prif ffyrdd cymudo sy'n cysylltu Sir y Fflint gyda Swydd Gaer."*	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch pellteroedd teithio mwy, hygyrchedd a diogelwch llwybrau cerdded i safle'r ysgol newydd arfaethedig. Fe soniodd ymatebwyr am amrywiaeth o faterion yn cynnwys hyd y siwrnai i rai disgyblion, pryderon ynghylch diogelwch y ffordd, llwybrau traffig prysur, mannau croesi a heriau ymarferol y mae rhai teuluoedd heb fynediad at gludiant preifat yn ei wynebu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch plant iau, plant sydd ag anghenion ychwanegol a theuluoedd sydd â nifer o blant yn mynd i leoliadau gwahanol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai trefniadau teithio newid i rai teuluoedd os bydd y cynnig yn symud yn ei flaen. Yn rhan o ddatblygu'r prosiect, byddai'n rhaid parhau i gynnal asesiadau o drefniadau mynediad, llwybrau teithio llesol, ystyriaethau priffyrdd a hygyrchedd safle. Byddai cymhwysedd ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ystyried yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Cyngor. Mae'r farn a fynegwyd drwy'r ymgynghoriad yn dangos y pwysigrwydd mae budd-ddeiliaid yn ei roi ar lwybrau diogel a hygyrch i'r ysgol a bydd y pryderon hynny'n parhau i gael eu hystyried yn rhan o asesiad cyffredinol y cynnig.
2. Hunaniaeth Gymunedol a Cholli Ased Cymunedol **Pwyntiau allweddol** • Mae ysgolion yn cael eu hystyried yn ganolbwyntiau cymunedol, nid cyfleusterau addysgiadol yn unig. • Mae nifer o ymatebwyr yn ystyried Saltney Ferry a Saltney fel cymunedau gwahanol. • Pryderon fod Saltney Ferry eisoes wedi colli gwasanaethau ac amwynderau pwysig. • Mae cau'r ysgolion yn debygol o wanhau cydlyniant a hunaniaeth gymunedol.	Mae'r Cyngor yn derbyn cryfder y teimladau sy'n cael eu mynegi ynghylch rôl bwysig y mae'r ddwy ysgol yn ei chwarae o fewn eu cymunedau. Disgrifiodd nifer o ymatebwyr yr ysgolion fel llefydd mwy na sefydliadau addysgiadol, gan amlygu eu cyfraniad i hunaniaeth y gymuned, perthnasoedd lleol a chydlyniant cymdeithasol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol ysgolion a chysylltiadau hir-sefydlog y mae nifer o deuluoedd wedi'u meithrin ar draws cenedlaethau. Tra bod y cynnig yn ceisio sefydlu un ysgol newydd ar gyfer ardal Saltney, mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon

• Mae gan nifer o genedlaethau mewn teuluoedd gysylltiadau hir-sefydlog â'r ysgolion. **Enghreifftiau** • *"Mae Ysgol Gynradd Saltney Ferry wrth galon ein cymuned."* • *"Byddai cau'r ysol yn cael gwared ar y lle olaf sydd wir yn dod â phobl at ei gilydd."* • *"Byddai cau'r ysgol yn dinistrio'r ymdeimlad o gydlyniant sy'n cael ei ddarparu drwy'r ysgol."*	ynghylch yr effaith posibl ar hunaniaeth gymunedol a chysylltiadau lleol. Mae'r sylwadau yma wedi cael eu hystyried yn ofalus ac maent yn ffurfio rhan bwysig o adborth yr ymgynghoriad. Os fydd y cynnig yn symud yn ei flaen, byddai cyfleoedd yn cael eu harchwilio i ddathlu a chadw hanes, traddodiadau a chyflawniadau'r ddwy ysgol bresennol o fewn y ddarpariaeth newydd.
3. Ethos Ysgol Fechan, Meithrin a Chefnogaeth Unigol **Pwyntiau allweddol** • Mae ymatebwyr wir yn gwerthfawrogi graddfa fechan y ddwy ysgol • Caiff ysgolion eu disgrifio fel llefydd croesawgar, meithringar ac sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. • Mae yna dybiaeth fod staff yn adnabod plant a theuluoedd yn dda. • Mae rhieni yn credu fod plant yn derbyn cefnogaeth sydd yn fwy personol. • Pryderon y gallai plant gael eu hanwybyddu mewn ysgol fwy. **Enghreifftiau** • *"Mae'r ddwy ysgol yn darparu amgylchedd sy'n debyg i deulu bychan lle mae staff yn adnabod pob disgybl ar hyn o bryd."* • *"Mae ysgolion llai yn rhoi gwell addysg i ddisgyblion ac mae mwy o amser yn cael ei dreulio gyda phob disgybl."* • *"Ethos bychan, lleol a meithringar yr ysgol oedd y rheswm i ni ei dewis."*	Mae'r Cyngor yn deall bod ymgyngoreion yn rhoi gwerth sylweddol ar yr ethos ysgol fechan yn y ddwy ysgol. Fe soniodd ymatebwyr am y perthnasoedd cryf sy'n bodoli rhwng disgyblion, teuluoedd a staff, a'r gwerth sy'n cael ei roi ar yr amgylcheddau croesawgar, meithringar sy'n cefnogi lles, hyder ac ymdeimlad o berthyn disgyblion. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nodweddion yma'n gryfderau sylweddol o gymuned y ddwy ysgol ac y bydd cynnal y gefnogaeth fugeiliol o safon uchel yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu'r ysgol newydd. Tra bod ymgyngoreion wedi mynegi pryderon y gallai disgyblion dderbyn llai o sylw unigol mewn ysgol fwy, mae canlyniadau addysgiadol yn cael eu dylanwadu'n bennaf gan safon yr addysgu, arweinyddiaeth, darpariaeth cwricwlwm a chefnogaeth i ddisgyblion yn hytrach na maint yr ysgol yn unig. Mae'r trefniant arfaethedig yn ceisio cadw agweddau cadarnhaol ysgol ofalgar a chynhwysol tra'n darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae gan mwy o gydweithio rhwng staff, gwell capasiti arweinyddiaeth, mynediad gwell at adnoddau ac ystod ehangach o gyfleoedd dysgu a chyfoethogi y potensial i gefnogi lles a chanlyniadau addysgiadol disgyblion. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ysgol newydd gynnal ffocws cryf ar berthnasoedd, gofal fugeiliol ac anghenion unigol dysgwyr, gan gyfuno manteision amgylchedd meithringar gyda'r manteision â ddaw yn sgil mwy o gapasiti ac adnoddau.

4. Effaith ar Ddysgwyr Diamddiffyn, Disgyblion ADY a Lles **Pwyntiau allweddol** • Pryderon sylweddol ynghylch yr effaith ar blant sydd ag ADY, AAA ac anghenion cefnogaeth ychwanegol. • Mynegodd ymatebwyr bryderon yn ymwneud ag awtistiaeth, ADHD, gorbryder a chyflyrau meddygol. • Roedd newid ysgol a threfniadau teithio'n cael eu hystyried yn aflonyddol. • Mae rhieni'n credu bod amgylcheddau ysgolion bach yn helpu dysgwyr diamddiffyn i ffynu. • Pryderon y gallai cefnogaeth gael ei gwanhau mewn lleoliad mwy. **Enghreifftiau** • *"Gan fod gen i blentyn AAA, dwi'n gwybod bod newid eu harferion yn gallu bod yn anodd."* • *"Ni fyddai newid dramatig fel ysgol newydd mewn lleoliad gwahanol yn gweithio i fy mhlentyn."* • *"Ni fyddant yn cael yr un lefel o gefnogaeth a sylw mewn ysgol fwy."*	Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymgyngoreion ynghylch effaith posibl y cynnig ar ddisgyblion diamddiffyn, yn cynnwys disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, awtistiaeth, ADHD, gorbryder ac anghenion cefnogaeth ychwanegol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o ddysgwyr yn elwa o arferion cyfarwydd, perthnasoedd sydd wedi'u sefydlu ac amgylcheddau ble maent yn teimlo'n ddiogel, a gall unrhyw newid sylweddol fod yn ffynhonnell o bryder i ddisgyblion a'u teuluoedd. Tra bod ymgyngoreion wedi mynegi pryder y gallai cefnogaeth gael ei gwanhau mewn ysgol fwy, mae tystiolaeth yn dangos bod safon, cysondeb a pharhad cefnogaeth yn ffactorau sylweddol wrth benderfynu ar ganlyniadau i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol na maint ysgol yn unig. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i gryfhau darpariaeth drwy wella capasiti staff, dulliau mwy cyson o adnabod a bodloni anghenion dysgwyr, gwella mynediad i arbenigedd a chyfleusterau, a mwy o gyfleoedd i gydweithio rhwng staff. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd llwyddiant y cynnig yn dibynnu ar reoli trefniadau pontio'n effeithiol ac mae'n ymroddedig i sicrhau bod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn derbyn cymorth wedi'i bersonoleiddio cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw gyfnod pontio i leihau unrhyw amhariaeth ac i gefnogi eu lles.
5. Mae Ysgolion Presennol yn Llwyddiannus a Dylid eu Cadw **Pwyntiau allweddol** • Gofynnodd nifer o ymatebwyr am yr angen am newid. • Caiff yr ysgolion eu disgrifio fel rhai sy'n ffynnu, yn llwyddiannus ac yn cael eu gwerthfawrogi. • Cafwyd sylwadau cadarnhaol am arweinyddiaeth, staff a darpariaeth addysgiadol. • Cyfeiriwyd yn rheolaidd at niferoedd disgyblion yn cynyddu a lleoedd llawn yn y dosbarth meithrin/cylch chwarae.	Mae'r Cyngor yn croesawu'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan ymgyngoreion ynghylch y ddwy ysgol. Fe soniodd yr ymatebwyr am ymrwymiad arweinwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol, safon y ddarpariaeth addysg a rôl bwysig y mae pob ysgol yn ei chwarae yn ei chymuned. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y ddwy ysgol nifer o gryfderau a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach. Nid yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno am fod yr ysgolion yn cael eu hystyried yn rhai nad ydynt yn llwyddiannus neu nad ydynt yn perfformio. Yn hytrach, y bwriad yw sicrhau model cynaliadwy o ddarpariaeth addysg sy'n bodloni anghenion dysgwyr

• Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol hefyd wedi herio'r awgrym nad ydi'r ysgolion yn perfformio neu nad ydynt yn gynaliadwy. **Enghreifftiau** • *"Peidiwch â thrwsio system nad yw wedi torri."* • *"Mae'r niferoedd yn codi. Mae'r cylch chwarae yn llawn."* • *"Mae Ysgol Saltney Ferry mewn sefyllfa gref rŵan ac yn arwain mewn meysydd dysgu ble mae ysgolion eraill yn ceisio dod i rannu arferion da."*	a'r gymuned yn y dyfodol. Tra'n cydnabod cryfderau y ddwy ysgol, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried ffactorau ehangach yn cynnwys nifer sylweddol o leoedd gwag yn y ddwy ysgol, cyflwr a chynaliadwyedd yr adeiladau presennol, a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Mae'r Cyngor yn credu y byddai dod â chryfderau, arbenigedd ac adnoddau'r ddwy ysgol ynghyd o fewn amgylchedd dysgu modern yn darparu cyfleoedd i wella darpariaeth addysg, gwella defnydd effeithlon adnoddau a chreu ysgol gynaliadwy sydd yn gallu bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol.
6. Ffafriaeth dros Fuddsoddi yn yr Ysgolion Presennol yn Hytrach nag Uno **Pwyntiau allweddol** • Mae nifer o ymatebwyr yn cefnogi buddsoddiad mewn addysg ond nid drwy uno. • Fe awgrymwyd ailwampio a gwella'r ysgolion presennol fel dewisiadau amgen. • Gofynnodd ymatebwyr a ydi ysgol newydd yn cynrychioli'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. • Cyfeiriodd rhai sylwadau at oblygiadau treth y Cyngor. • Mynegwyd pryderon hefyd am berchenogaeth asedau wedi'u hariannu'n gyhoeddus. **Enghreifftiau** • *"Buddsoddwch yn yr ysgolion sydd gennym ni."* • *"Byddai'n well gwario arian ar y ddwy ysgol bresennol."* • *"Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio gwariant cyfalaf i wneud gwelliannau i'r ddau safle."*	Mae'r Cyngor yn nodi'r ffafriaeth a fynegwyd gan rai o'r ymgyngoreion i fuddsoddi yn adeiladau'r ysgolion presennol, yn hytrach na datblygu ysgol newydd drwy uno. Mae'r Cyngor yn cydnabod y cysylltiad sydd gan nifer o fudd-ddeiliaid i'r ysgolion presennol ac mae'n deall pam fod ailwampio'r safleoedd presennol wedi cael ei awgrymu fel dewis amgen. Wrth ddatblygu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi ystyried amrywiaeth o ddewisiadau ac wedi asesu eu gallu i fodloni anghenion addysgiadol, gweithredol ac ariannol hirdymor dysgwyr a'r gymuned. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn gysylltiedig â chyllid drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a'i fwriad yw cefnogi prosiectau sydd yn mynd i'r afael ag amcanion strategol, yn cynnwys darparu lleoedd ysgolion cynaliadwy a defnydd effeithlon o asedau addysgiadol. O ystyried y nifer sylweddol o leoedd gwag yn y ddwy ysgol, ni fyddai buddsoddi yn yr adeiladau presennol yn mynd i'r afael â phroblemau cynaliadwyedd sylfaenol y mae'r cynnig yn ceisio ei ddatrys a byddai'n annhebygol o gyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer y lefel yma o fuddsoddiad. Mae'r Cyngor o'r farn felly bod y cynnig yn cynrychioli'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cyllid allanol, lleihau capasiti lleoedd gwag a darparu amgylchedd dysgu modern sy'n cefnogi darparu addysg o safon uchel hirdymor.
7. Barn y Gymuned, Ymgynghori ac Ymddiriedaeth yn y Penderfyniadau **Pwyntiau allweddol**	Mae'r Cyngor yn deall bod ymgyngoreion yn teimlo nad yw'r farn maent wedi'i mynegi yn ystod yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y cynnig ac mae'n nodi'r

• Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu'n aml. • Cyfeiriwyd yn rheolaidd at y broses ymgynghori flaenorol. • Mae canfyddiad yn bodoli nad ydi'r farn yn lleol wedi dylanwadu ar y cynnig. • Mynegwyd pryderon ynglŷn â thryloywder a thystiolaeth sy'n cefnogi'r cynnig. • Gofynnodd nifer o ymatebwyr am gyfiawnhad cliriach dros y manteision addysgiadol. **Enghreifftiau** • *"Rydym ni'n cael ein hanwybyddu."* • *"Nid yw 96% o'r bobl a ymatebodd eisiau i hyn ddigwydd."* • *"Nid ydynt yn gwrando ar farn y cyhoedd."*	pryderon a godwyd o ran hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod cryfder y teimlad o fewn y gymuned ac mae'n gwerthfawrogi'r amser a gymerwyd gan ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a budd-ddeiliaid eraill i ymgysylltu â'r broses. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried yn ofalus a'u cofnodi yn rhan o'r broses ymgynghori statudol. Er bod y Cyngor yn nodi bod nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, pwrpas yr ymgynghoriad yw casglu ac ystyried pob barn, tystiolaeth a gwybodaeth cyn dod i benderfyniad, yn hytrach na phenderfynu ar y canlyniad trwy bleidlais. Mae angen i'r Cyngor ystyried amrywiaeth o ffactorau, yn cynnwys canlyniadau addysgiadol, lles dysgwyr, cynaliadwyedd, goblygiadau ariannol, capasiti yn yr ysgolion a defnydd effeithlon o adnoddau. Mae adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi helpu i adnabod meysydd ble mae angen rhagor o eglurhad, yn enwedig mewn perthynas â manteision addysgiadol y cynnig, trefniadau pontio a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i gynnal proses agored a thryloyw a sicrhau bod pob sylw yn cael ei ystyried yn llawn cyn dod i unrhyw benderfyniad.
8. Effaith ar Bresenoldeb, Teuluoedd Difreintiedig a Chydraddoldeb **Pwyntiau allweddol** • Fe gysylltodd ymatebwyr y gofynion i deithio yn bellach gyda phresenoldeb is. • Mynegwyd pryderon ynghylch pwysau ariannol ar deuluoedd. • Mynegwyd pryder penodol am deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. • Fe amlygodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y gyfran o ddisgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim a Chynlluniau Datblygu Unigol. • Dadl yr ymatebwyr oedd y gallai'r cynnig greu rhwystrau ychwanegol i gael gafael ar addysg. **Enghreifftiau**	Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon a fynegwyd gan ymgyngoreion ynghylch effaith posibl y cynnig ar bresenoldeb, teuluoedd difreintiedig a disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Fe soniodd ymatebwyr am bryder y gallai pellteroedd teithio hirach greu rhwystrau i gael addysg, yn enwedig i deuluoedd sy'n wynebu caledi ariannol, ac fe allai effeithio'n wael ar bresenoldeb, lles ac ymgysylltu. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau fod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar addysg yn deg a bod unrhyw effeithiau posibl ar grwpiau diamddiffyn yn cael eu hystyried yn ofalus. Tra bod y pryderon yma'n cael eu deall, nid oes yna dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn presenoldeb. Mae'r Cyngor wedi ystyried yr effaith posibl ar ddysgwyr drwy Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n cydnabod yr

• *"Bydd cwymp mawr yn y ffigurau presenoldeb."* • *"Mae nifer o deuluoedd yn byw o dan y llinell dlodi."* • *"Bydd symud ysgol yn difrodi'r ffigwr hwn ac o ganlyniad y disgyblion a theuluoedd diamddiffyn."*	angen i gefnogi'r teuluoedd hynny allai gael eu heffeithio fwyaf gan newidiadau i drefniadau teithio. Yn ychwanegol, mae'r cynnig yn rhoi cyfle i wella'r ddarpariaeth addysg drwy gyfleusterau gwell, mwy o fynediad at adnoddau a model mwy cynaliadwy o gefnogaeth i ddysgwyr, yn cynnwys y rhai sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim a'r rhai sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i weithio'n agos gyda theuluoedd ac ysgolion i sicrhau bod trefniadau pontio'n cael eu rhoi ar waith yn sensitif a bod rhwystrau i gymryd rhan yn cael eu lleihau lle bynnag y bo'n bosibl.
Thema Cadarnhaol: Manteision Ysgol Newydd a Chyfleusterau Modern **Pwyntiau allweddol** • Mae lleiafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. • Fe soniodd cefnogwyr am gyflwr ac oedran yr adeiladau presennol. • Ystyriwyd y byddai cyfleusterau modern yn cefnogi'r amgylchedd dysgu. • Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai un ysgol yn gwneud defnydd gwell o adnoddau. • Mynegodd nifer fechan o gefnogaeth ar ôl adolygu'r wybodaeth yn yr ymgynghoriad. **Enghreifftiau** • *"Nid yw'r ysgolion presennol yn addas i'r diben."* • *"Bydd ysgol fodern yn cael ei chynllunio'n well."* • *"Mae'n gwneud synnwyr ariannol i gael un ysgol lawn yn hytrach na dwy ysgol nad ydynt yn llawn."*	Mae'r Cyngor wedi nodi bod nifer o ymgyngoreion wedi mynegi cefnogaeth ar gyfer y cynnig ac yn cydnabod y manteision posibl y gellir eu cyflawni trwy greu ysgol newydd. Mynegodd ymatebwyr bryderon dros oedran a chyflwr yr adeiladau presennol ac roeddynt o'r farn y gallai adeilad modern a phwrpasol ddarparu amgylchedd dysgu gwell i ddisgyblion a staff. Roedd rhai ymgyngoreion hefyd yn cydnabod y manteision posibl o weithredu un ysgol yn hytrach na chynnal dwy ysgol gyda nifer o leoedd gwag. Mae'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig yn darparu cyfle i gyflwyno cyfleusterau modern o safon uchel sydd wedi'u dylunio i gefnogi darparu Cwricwlwm i Gymru a bodloni anghenion dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu amgylcheddau dysgu gwell, mwy o hygyrchedd, mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r gofod a defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae'r Cyngor o'r farn y byddai dod â chryfderau'r ddwy ysgol o fewn y cyfleusterau newydd pwrpasol ynghyd yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg a chyflawni manteision i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach.

8.0 Yn y ffurflenni ymateb gofynnwyd i unigolion ddarparu eu safbwyntiau ar effeithiau posibl y cynnig hwn ar y Gymraeg. Mae rhagor o fanylion am yr ymatebwyr wedi ei nodi yn **Atodiad E**. Er gwaetha'r ffaith fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig, roedd tua dwy ran o dair o'r rhai hynny a ymatebodd i'r cwestiynau ar y Gymraeg yn credu y byddai'r cynnig, pe byddai'n cael ei gyflawni, yn arwain at effeithiau cadarnhaol neu niwtral o ran y Gymraeg. Dim ond tua 18% oedd yn credu y byddai'r

cynnig yn effeithio'n andwyol ar yr ardaloedd a nodwyd. Mae hyn yn gyson gyda'n Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a oedd hefyd yn cydnabod fod unrhyw ysgol newydd yn darparu cyfle i wella sgiliau o ran y Gymraeg yn y lleoliad addysgol a'r gymuned yn ehangach.

8.1 Mae 49.07% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg.

8.2 Mae 49.06% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

8.3 Mae 49.30% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.

8.4 Mae 52.70% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

8.5 Mae 43.87% o ymatebwyr yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

8.6 Roedd ymatebwyr yn gallu darparu sylwadau ychwanegol ar sut y gallai'r cynnig hwn gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Cafodd 82 o sylwadau unigol eu derbyn. Mae dadansoddiad o amlder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau isod.

THEMÂU YN YMWNEUD Â'R GYMRAEG

Thema	Ymateb CSyFf
Thema 1: Gallai'r Cynnig Leihau'r Defnydd o'r Gymraeg trwy Fwy o Deithio Trawsffiniol **Pwyntiau allweddol** • Mae ymatebwyr yn credu y gallai'r cynnig annog mwy o deuluoedd i ddewis ysgolion yn Lloegr. • Mae llai o ddarpariaeth yn Gymraeg yn cael ei ystyried fel cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgu a defnyddio Cymraeg. • Pryder y gallai pellteroedd teithio hirach arwain at deuluoedd yn ceisio darpariaeth amgen ar draws y ffin. • Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod hyn yn mynd yn groes i hyrwyddo'r Gymraeg. **Enghreifftiau**	Mae'r Cyngor yn ystyriol o bryderon ynghylch effaith posibl y cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r posibilrwydd y gallai rhai teuluoedd ddewis cael addysg yn Lloegr. Mynegodd ymatebwyr bryderon y gallai newidiadau i ddarpariaeth ysgolion lleol ddylanwadu ar dewis rhieni a lleihau cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod addysg trawsffiniol eisoes yn nodwedd hir-sefydlog o'r ardal ac yn hanesyddol bod teuluoedd wedi ymarfer eu hawl i ddewis ysgolion ar draws ffin Cymru a Lloegr am amrywiaeth o resymau. Er nad oes modd darogan yn sicr beth fydd penderfyniadau rhieni, mae Sir y Fflint yn parhau'n ymroddedig i uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg. Nod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yw cynyddu sgiliau Cymraeg pob dysgwr, yn cynnwys y rhai sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys camau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gwella cyrhaeddiad Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a chefnogi dysgwyr sy'n

• *"Bydd cau'r ysgolion yn anorfod yn annog mwy o ddisgyblion i ddefnyddio ysgolion ar draws y ffin."* • *"Bydd cyfuno'r ysgolion yma'n golygu bod disgyblion yn cael eu tynnu allan gan chwilio am opsiynau eraill. Yn fy achos i, mae'n debygol y bydd fy ail blentyn yn mynychu ysgol Saesneg."* • *"Bydd cael gwared ar y 3 ysgol yn Saltney yn gorfodi rhieni lleol i anfon eu plant i ysgolion yn Lloegr.*	trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg drwy raglenni trochi. Tra bod lleoliad Saltney yn agos at ffin Lloegr yn cael ei gydnabod, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal honno eisoes yn gymharol isel, o'i gymharu â rhannau eraill o Sir y Fflint. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg a chyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd lleol beth bynnag yw canlyniad y cynnig hwn. Bwriad y cynnig yw darparu amgylchedd addysgiadol cynaliadwy o safon uchel sy'n parhau'n opsiwn deniadol i deuluoedd lleol tra'n parhau i gefnogi datblygu'r Gymraeg.
Thema 2: Nid yw Manteision Cymraeg y Cynnig wedi'u Gwireddu **Pwyntiau allweddol** • Ni allai nifer ymatebwyr nodi sut y byddai'r cynnig yn gwella canlyniadau o ran y Gymraeg. • Pryderon nad yw uno yn arwain yn awtomatig at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg. • Gofynnodd ymatebwyr am dystiolaeth yn cefnogi unrhyw effaith cadarnhaol ar y Gymraeg. • Roedd ymatebion budd-ddeiliaid yn amlygu diffyg canlyniadau y gellir eu mesur ar y Gymraeg. • Gofynnwyd am gysylltiadau cliriach rhwng y cynnig ac amcanion o ran y Gymraeg. **Enghreifftiau** • *"Nid wyf yn rhagweld y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfleoedd o ran y Gymraeg yn yr ardal."* • *"Nid yw hyn yn mynd i gynyddu'r Gymraeg."* • *"Nid yw'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn dangos sut y*	Mae'r Cyngor yn ystyriol o bryderon ynghylch effaith posibl y cynnig ar ganlyniadau o ran y Gymraeg. Gofynnodd nifer o ymatebwyr a fyddai'r uno ynddo'i hun yn arwain at gynyddu'r Gymraeg neu wella cyrhaeddiad Cymraeg, gan ofyn am dystiolaeth gliriach o sut mae'r cynnig yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ad-drefnu ysgolion yn unig yn arwain at ganlyniadau gwell yn awtomatig o ran y Gymraeg. Mae cyfraniad y cynnig at amcanion o ran y Gymraeg yn gysylltiedig â'r cyfleoedd a grëwyd drwy fodel ysgol cynaliadwy, yn cynnwys cydweithio gwell rhwng staff, mwy o gysondeb wrth gyflawni'r cwricwlwm a mwy o gapasiti i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod na ddylid ystyried y cynnig fel yr unig ddull o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; yn hytrach, mae'n darparu platfform i ddatblygu a chryfhau darpariaeth a chyfleoedd o ran y Gymraeg dros amser. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i gefnogi amcanion Cymraeg 2050 a gweithio gydag arweinwyr ysgolion i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol yn ehangach fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro effaith y cynnig ar y Gymraeg a bydd yn ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori yn rhan o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Os bydd y cynnig yn symud yn ei flaen, bydd y Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu ac arweinwyr yr ysgol i ganfod cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a chefnogi cyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fe allai hyn gynnwys gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol trwy gydol amgylchedd yr ysgol newydd, mwy o gyfleoedd ar gyfer

byddai'r cynnig hwn yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiadau hyn."	gweithgareddau cwricwlwm ac allgyrsiol cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff a pharhau i hyrwyddo llwybrau addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylai darparu amcanion y Gymraeg gael ei fonitro a bydd yn ystyried sut y gellir adlewyrchu cynnydd yn erbyn yr amcanion yma o fewn trefniadau gwella'r ysgol a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y dyfodol.
Thema 3: Mae Ysgolion Presennol Eisoes yn Cefnogi'r Gymraeg yn Effeithiol **Pwyntiau allweddol** • Dywedodd ymatebwyr yn aml fod dysgu'r Gymraeg eisoes yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. • Cafodd staff ysgol presennol eu canmol am annog defnyddio'r Gymraeg. • Roedd ysgolion llai yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn cefnogi hyder o ran dysgu iaith. • Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai canlyniadau o ran y Gymraeg arwain at welliant o fewn trefniadau presennol. • Awgrymodd rhai gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg heb ad-drefnu ysgolion. **Enghreifftiau** • *"Maen nhw'n gwneud yn wych yn cynnwys y Gymraeg mewn siarad a dysgu bob dydd yn Ysgol Saltney Ferry."* • *"Gadewch i ni gadw ein hysgol, ein hathrawon … mae'n well o ran y Gymraeg a byddwn yn dysgu mwy gyda ..."* • *"Gellir cyflawni hyn yn well drwy fynd i'r afael â'r cwricwlwm o fewn trefniadau presennol yr ysgol."*	Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau cadarnhaol gan yr ymgyngoreion ynghylch hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgolion presennol. Tynnodd ymatebwyr sylw at ymrwymiad y staff i sefydlu dysgu'r Gymraeg o fewn bywyd ysgol bob dydd a chydnabod cyfraniad cadarnhaol y mae'r ddwy ysgol yn ei wneud yn cefnogi hyder dysgwyr a'u hymgysylltiad â'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn croesawu'r farn yma ac yn cydnabod y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan staff i hyrwyddo datblygu'r Gymraeg. Nid yw'r cynnig yn seiliedig ar farn fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol yn aneffeithiol neu angen ei wella o ganlyniad i danberfformiad. Yn hytrach, mae'n ceisio adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn bodoli yn y ddwy ysgol drwy greu amgylchedd addysgiadol gynaliadwy lle gellir parhau i gefnogi dysgu'r Gymraeg yn yr hirdymor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwelliannau yng nghanlyniadau o ran y Gymraeg yn cael eu gyrru gan addysgu, arweinyddiaeth ac ymrwymiad o safon uchel ar draws yr ysgol gyfan, yn hytrach na threfniadaeth yr ysgol yn unig. Rhagwelir y bydd arbenigedd ac arfer da sy'n amlwg ar hyn o bryd ar draws y ddwy ysgol yn cael ei gadw a'i rannu o fewn yr ysgol newydd arfaethedig, gan greu cyfleoedd i hyrwyddo dysgu'r Gymraeg a chefnogi dyheadau Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
Thema 4: Mae Lleoliad Saltney ar y Ffin yn Creu Heriau i Ddatblygu'r Gymraeg	Mae'r Cyngor yn ystyrlon o'r farn a fynegwyd gan ymgyngoreion ynghylch cyd-destun ieithyddol unigryw Saltney a'r heriau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r

Pwyntiau allweddol • Disgrifiwyd Saltney yn aml fel ardal sydd yn bennaf Saesneg ei hiaith. • Fe soniodd ymatebwyr am yr agosatrwydd at y ffin â Lloegr. • Roedd nifer yn teimlo bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. • Roedd rhai yn credu bod hyn yn rhwystr i gynyddu defnyddio'r Gymraeg. • Roedd eraill yn teimlo bod hyn yn gwneud hyrwyddo'r Gymraeg yn hynod bwysig. **Enghreifftiau** • *"Mae hi'n anodd iawn yn yr ardal hon i gynyddu'r Gymraeg gan ein bod ni mor agos at y ffin â Lloegr."* • *"Mae Saltney ar y ffin â Lloegr, 'dwi ddim yn meddwl bod y Gymraeg yn cael ei siarad llawer yma beth bynnag."* • *"Does gan iaith ddim i'w wneud â hyn. Mae Saltney yn gymuned sydd wedi bod yn gymuned Saesneg ei hiaith erioed."*	Gymraeg mewn ardal ar y ffin. Dywedodd ymatebwyr fod Saltney yn ardal sy'n bennaf Saesneg ei hiaith ac y gallai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fod yn fwy cyfyngedig nag mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y cyd-destun lleol ddylanwadu ar gyfleoedd dysgwyr i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r Cyngor yn credu bod y ffactorau hyn yn atgyfnerthu, yn hytrach na lleihau pwysigrwydd yr ysgolion i hyrwyddo dysgu'r Gymraeg a chefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 drwy ddefnyddio eu cyfleusterau. Y bwriad yw darparu amgylchedd addysgiadol cynaliadwy lle gall dysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy addysgu o safon uchel a chyfleoedd ystyrlon i ymgysylltu â Chymraeg ar draws bywyd yr ysgol a thu hwnt i ddiwrnod yr ysgol. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i gefnogi datblygu dysgu'r Gymraeg a sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg waeth pa mor agos yw'r gymuned at y ffin â Lloegr. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer teuluoedd lleol beth bynnag fydd canlyniad y cynnig hwn, a chefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal drwy ddefnyddio'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.
Thema 5: Dylid Hyrwyddo'r Gymraeg drwy Fesurau Ymarferol a Chadarnhaol **Pwyntiau allweddol** • Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn cefnogi cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. • Roedd awgrymiadau'n cynnwys dysgu ychwanegol, gweithgareddau Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu yn y gymuned	Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd gan ymgyngoreion ynghylch hyrwyddo'r Gymraeg a phwysigrwydd darparu cyfleoedd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Fe awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o fesurau ymarferol, yn cynnwys gweithgareddau Cymraeg ychwanegol, cyfleoedd penodol i ddysgu'r Gymraeg a mwy o fynediad at gefnogaeth Cymraeg. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gefnogaeth gadarnhaol a fynegwyd ar gyfer dysgu Cymraeg ac mae'n cydnabod y cyfraniad pwysig y mae ysgolion yn ei chwarae yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru o oedran cynnar. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyrwyddo'r Gymraeg yn golygu amrywiaeth o fentrau a chyfleoedd parhaus sy'n ymestyn y tu hwnt i drefniadau'r ysgol yn unig. Nid yw'r cynnig yn ddull penodol o gynyddu'r defnydd o'r

• Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi dysgu Cymraeg o oedran ifanc. • Roedd rhai yn ffafrio annog y Gymraeg yn hytrach na gorfodi ei ddefnyddio. • Fe soniwyd am bwysigrwydd diwylliant Cymru a'i threftadaeth. **Enghreifftiau** • *"Hyrwyddo'r iaith a chynnig cyrsiau am ddim."* • *"Parhau â'r sefyllfa bresennol a chael diwrnodau Cymraeg penodol unwaith yr wythnos."* • *"Cyflogi athrawon sy'n siarad Saesneg a Chymraeg mewn ysgolion cynradd."*	Gymraeg, mae disgwyl y byddai'r ysgol newydd yn parhau i gefnogi dysgu Cymraeg drwy Cwricwlwm i Gymru a thrwy weithgareddau ysgol ehangach sy'n hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050 a bydd yn parhau i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i annog dysgwyr i ddatblygu hyder yn defnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd ystyrlon a chadarnhaol. Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fanwl y gellir ei ddarllen yma: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Welsh-Education-Strategic-Plan.aspx
Thema Cadarnhaol: Cefnogaeth ar gyfer y Gymraeg a Hyrwyddo Diwylliant **Pwyntiau allweddol** • Mynegodd grŵp llai o ymatebwyr gefnogaeth glir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. • Roedd Cymraeg yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o hunaniaeth a diwylliant Cymru. • Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer addysg ddwyieithog a dysgu ail iaith. • Roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg yn y gymuned. • Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd creu siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol. **Enghreifftiau** • *"Mae'r Gymraeg yn marw ac fe hoffwn i iddi gael ei hadfywio."* • *"Dwi'n meddwl y dylai pob plentyn ddysgu ail iaith."*	Mae'r Cyngor yn nodi bod nifer o ymgyngorerion wedi mynegi cefnogaeth i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ac yn cydnabod ei phwysigrwydd yn rhan o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Cymru. Fe soniodd ymatebwyr am werth dwyieithrwydd, cefnogi cyfleoedd i blant ddysgu Cymraeg o oedran ifanc a chydnabod y rôl y gall addysg ei chwarae yn creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Fe nododd rhai ymatebwyr hefyd yr angen am fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach. Mae'r Cyngor yn rhannu'r dyheadau hyn ac mae'n parhau'n ymroddedig i gefnogi amcanion Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol. Tra bod y cynnig yn ymwneud yn bennaf â threfnu darpariaeth ysgol mae'r Cyngor yn cydnabod rôl bwysig y mae ysgolion yn ei chwarae yn datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr a meithrin gwerthfawrogiad o iaith a diwylliant Cymru. Byddai'r ysgol arfaethedig yn parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg drwy Gwricwlwm i Gymru a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r Gymraeg a gweithgareddau diwylliannol y tu hwnt i ddiwrnod yr ysgol. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gynllunio i liniaru rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, a sut rydym yn gobeithio gwella cyfleoedd o ran y Gymraeg wedi'u darparu yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg ynghyd

• *“Nid oes yna gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned, felly dim ond gwella hynny fyddai cael mwy o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.”*	â’r ddogfen ymgynghori. Fe fydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu adborth o’r ymgynghoriad.

9.0 Y camau nesaf

Yn unol â Chod Trefniadau Ysgolion, mae’r Cyngor wedi adolygu ac ystyried yr holl ymatebion a gafwyd yn yr ymgynghoriad, yn cynnwys y rhai a gyflwynwyd gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr, undebau llafur, cynrychiolwyr cymunedol, Estyn a Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG).

Fe godwyd nifer o faterion yn gyson drwy gydol y broses ymgynghori, yn cynnwys pryderon ynghylch trefniadau teithio, hunaniaeth y gymuned, effaith ar ddysgwyr diamddiffyn, defnydd safleoedd presennol yr ysgolion yn y dyfodol, yr effaith posibl ar bresenoldeb a chyfraniad y cynnig tuag at amcanion y Gymraeg.

Fe gynigiodd ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau amgen, yn cynnwys:

- Cadw’r ddwy ysgol yn eu ffurf presennol;
- Ailwampio adeiladau’r ysgolion presennol;
- Buddsoddi yn y ddwy ysgol ar wahân yn hytrach nag adeiladu ysgol newydd;
- Datblygu ysgol newydd ar safle arall;
- Archwilio trefniadau trefniadaeth ysgol amgen yn cynnwys ysgolion eraill yn yr ardal leol.

Mae’r Cyngor wedi ystyried y dewisiadau amgen yma’n ofalus ynghyd â’r dystiolaeth a gyflwynwyd o fewn y ddogfen ymgynghori. Tra bod yr ymatebion i’r ymgynghoriad wedi darparu gwybodaeth ychwanegol o ran cryfder y farn yn lleol a phryderon budd-deiliaid, nid oes tystiolaeth newydd wedi cael ei chyflwyno sy’n newid yr asesiad yn ei hanfod sydd wedi’i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Barn y Cyngor yw na fyddai cadw ac ailwampio’r ysgolion presennol yn ddigonol i fynd i’r afael â’r heriau sy’n gysylltiedig â chyflwr yr adeiladau, addasrwydd, lleoedd gwag a chynaliadwyedd hirdymor darpariaeth addysgiadol yn yr ardal. Ni fyddai modelau trefniadaeth amgen yn sicrhau’r un manteision addysgiadol, gweithredol ac ariannol sy’n gysylltiedig â’r uno arfaethedig a datblygu ysgol newydd.

Ar ôl ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad ac awgrymiadau amgen, nid yw asesiad y Cyngor o’r cynnig wedi newid.

Mae’r Cyngor yn parhau i ystyried bod gweithredu’r cynnig yn cynrychioli’r ymateb mwyaf priodol i’r angen i ddarparu darpariaeth addysgiadol cynaliadwy, gwella amgylcheddau dysgu, lleihau lleoedd gwag mewn ysgolion, cryfhau capasiti arweinyddiaeth hirdymor a chefnogi defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus tra’n cynnal safonau addysgiadol ar gyfer dysgwyr y presennol a’r dyfodol.

Bydd aelodau o Gabinet Cyngor Sir y Fflint yn cael copi o’r adroddiad hwn cyn gwneud penderfyniad i symud ymlaen â’r cynnig a chyhoeddi Hysbysiad Statudol. Mae’r broses

hon yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu 28 diwrnod ffurfiol, a dylai unrhyw wrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig. Yn dilyn y cyfnod hwn bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad arall yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd a bydd yn penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen gyda gweithredu'r cynnig.

Ni fydd unrhyw sylwadau a wneir yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau. Os bydd unrhyw ymgyngoreion yn dymuno gwrthwynebu'n ffurfiol, rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod gwrthwynebu dynodedig. Bydd manylion ynglŷn â sut i gyflwyno gwrthwynebiad yn cael ei amlinellu'n glir yn yr Hysbysiad Statudol os gwneir penderfyniad i symud ymlaen.

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

ATODIAD A

Rhestr o'r holl fudd-ddeiliaid a dderbyniodd ddogfennau'r ymgynghoriad.

Ymgyngoreion	**Yn derbyn y ddogfen/ trwy:**
rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn ystyried y byddent yn cael eu heffeithio gan y cynigion;	Drwy'r ysgolion: Ysgol Gynradd Saltney Ferry Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae'r dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;	
aelodau o staff yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	Drwy'r ysgolion: Ysgol Gynradd Saltney Ferry Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn	Cyngor Sir y Fflint

credu y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (gan gynnwys timau cludiant a phriffyrdd);	
unrhyw Awdurdod Lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynigiwr yn credu bod y cynigion yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yn achos DDdY penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli disgyblion gydag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;	Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal ble mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arnynt;	Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy Esgobaeth Gatholig Wrecsam
unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	Amherthnasol
corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;	Corff Llywodraethu: Ysgol Gynradd Saltney Ferry Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony Ysgol Gynradd Brychdyn Lache County Primary School
Gweinidogion Cymru;	
Aelodau o'r Senedd (AoS) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	**Aelodau o'r Senedd (AoS):** Cristiana Emsley; Carrie Harper; Marc Jones; Sam Rowlands; Ken Skates; Nigel Williams; Louise Emery; Llyr Gruffydd; Becca Martin; Adrian Mason; Darren Millar; Tom Montgomery **Aelodau Seneddol (AS:)** Syr Mark Tami; Becky Gittins; Aphra Brandreth
Estyn;	Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;	Cynrychiolwyr NASUWT, NEU, UCAC, ASCL; UNISON
y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;	
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru
unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;	Cyngor Tref Saltney
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli;	
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdod Lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;	Clwb Hampus Eglwys Fethodistaidd Saltney Gofal Estynedig Woody Wraparound Saltney Small Steps
yn achos cynigion sy'n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), unrhyw gorff iechyd	SNAP Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

neu drydydd sector perthnasol y mae'r cynigiwr yn credu bod ganddynt fuddiant;	
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgolion sy'n destun y cynigion;	Coleg Cambria
yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; a	Medr: Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith.	
Arall	Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint

ATODIAD B

Yn dangos sut mae ymatebwyr o wahanol ysgolion yn cefnogi'r cynnig.

	Which school/s do you associate yourself with?							
Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...		Saltney Ferry C.P	Saltney Wood Memorial C.P.	Saint Anthony's Catholic Primary School	Broughton C.P	Lache County Primary School	Other (please specify):	Row Totals
	Yes	10 8.7%	15 15.3%	0 0.0%	3 21.4%	0 0.0%	1 9.1%	29 11.1%
	No	105 91.3%	83 84.7%	22 100.0%	11 78.6%	1 100.0%	10 90.9%	232 88.9%
	Column Total	115 44.1%	98 37.5%	22 8.4%	14 5.4%	1 0.4%	11 4.2%	261 100%


Sylwadau

- Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o'r ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio yn anghytuno â'r cynigion.

- Mae mwyafrif yr ymatebwyr sy'n nodi eu hunain fel 'arall' yn cytuno gyda'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr yn y categori hwn yn bennaf yn gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney neu gysylltiad blaenorol â naill ai Ysgol Gynradd Saltney Ferry neu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

ATODIAD C

Yn dangos y diddordeb/y berthynas sydd gan yr ymatebwyr gyda'r ysgol y maent yn cysylltu eu hunain â hi.



Sylwadau

- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (47.93%) yn rhieni/gofalwyr i ddisgybl yn yr ysgol.
- Nododd chwarter (25.81%) o ymatebwyr eu hunain fel aelodau o'r gymuned.
- Roedd y rhai a nododd 'arall' yn cynnwys neiniau a theidiau, cyn rieni/disgyblion yr ysgolion fydd yn cael eu heffeithio a Chyngor Tref Saltney.

ATODIAD D

Archwiliad o'r ymatebion gan grwpiau amrywiol o ymatebwyr yn ymwneud â'r cynnig.

	What is your interest/relationship with the school/s you identify with?								
Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...		I am a parent/carer of a pupil at the school	I am a pupil at the school	I am a prospective parent/carer of a pupil at the school	I am a teacher/other member of staff at the school	I am a governor at the school	I am a member of the community	Other (please specify):	Row Totals
	Yes	12 11.5%	1 50.0%	2 20.0%	6 30.0%	0 0.0%	5 8.9%	1 5.0%	27 12.4%
	No	92 88.5%	1 50.0%	8 80.0%	14 70.0%	5 100.0%	51 91.1%	19 95.0%	190 87.6%
	Column Total	104 47.9%	2 0.9%	10 4.6%	20 9.2%	5 2.3%	56 25.8%	20 9.2%	217 100%

Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (88.5%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (91.1%) o'r gymuned yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (95%) o'r categori 'arall' yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys neiniau a theidiau, cyn rieni/disgyblion a Chyngor Tref Saltney.
- Mae ymatebwyr sy'n staff wedi rhannu 70/30 yn erbyn y cynnig.

Dadansoddiad o'r grwpiau o ymatebwyr sy'n cysylltu eu hunain ag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood **yn unig**.

	What is your interest/relationship with the school/s you identify with?								
Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...		I am a parent/carer of a pupil at the school	I am a pupil at the school	I am a prospective parent/carer of a pupil at the school	I am a teacher/other member of staff at the school	I am a governor at the school	I am a member of the community	Other (please specify):	Row Totals
	Yes	4 8.7%	1 100.0%	1 25.0%	6 40.0%	0 0.0%	2 9.1%	1 12.5%	15 15.3%
	No	42 91.3%	0 0.0%	3 75.0%	9 60.0%	2 100.0%	20 90.9%	7 87.5%	83 84.7%
	Column Total	46 46.9%	1 1.0%	4 4.1%	15 15.3%	2 2.0%	22 22.4%	8 8.2%	98 100%

Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (91.3%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (90.9%) o'r gymuned yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (87.5%) o'r categori 'arall' yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys neiniau a theidiau a chyn rieni a disgyblion.
- Mae staff wedi rhannu 40/60 yn erbyn y cynnig.

Dadansoddiad o'r grwpiau o ymatebwyr sy'n cysylltu eu hunain ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry **yn unig**.

	What is your interest/relationship with the school/s you identify with?								
Do you support the proposal to:Close Saltney Ferry C.P and Saltney Wood Memorial C.P and open a new maint...		I am a parent/carer of a pupil at the school	I am a pupil at the school	I am a prospective parent/carer of a pupil at the school	I am a teacher/other member of staff at the school	I am a governor at the school	I am a member of the community	Other (please specify):	Row Totals
	Yes	7 12.5%	0 0.0%	0 0.0%	0 0.0%	0 0.0%	2 5.9%	1 7.7%	10 8.7%
	No	49 87.5%	1 100.0%	4 100.0%	6 100.0%	1 100.0%	32 94.1%	12 92.3%	105 91.3%
	Column Total	56 48.7%	1 0.9%	4 3.5%	6 5.2%	1 0.9%	34 29.6%	13 11.3%	115 100%


Sylwadau

- Nid yw mwyafrif helaeth (87.5%) o rieni/gofalwyr yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (94.1%) o'r gymuned yn cytuno gyda'r cynnig.
- Nid yw mwyafrif helaeth (92.3%) o'r categori 'arall' yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys neiniau a theidiau a chyn rieni a disgyblion.
- Mae 100% o ddisgyblion, darpar rieni, staff a llywodraethwyr yn anghytuno gyda'r cynnig.

ATODIAD E

Dadansoddiad o ymatebion i'r cwestiynau yn ymwneud â'r Effaith ar y Gymraeg.


Increasing the number of people speaking or learning Cymraeg.



Sylwadau

- Nododd 49.07% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran cynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.


Using Welsh services.



Sylwadau

- Nododd 49.06% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran y defnydd o wasanaethau Cymraeg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.


Opportunities to use Welsh socially.



Sylwadau


- Nododd 49.30% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Nododd 18.78% o ymatebwyr y byddai yna effaith gadarnhaol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn rhybuddio nad oedd rhai ymatebwyr a nododd effaith gadarnhaol y cynnig o'i blaid yn gyffredinol.

Welsh speaking communities.



Sylwadau

- Nododd 50.70% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna ar gymunedau Cymraeg eu hiaith pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.



Sylwadau

- Nododd 43.87% o ymatebwyr mai effaith niwtral fyddai yna o ran trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Nododd 23.58% o ymatebwyr y byddai yna effaith gadarnhaol o ran trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn rhybuddio nad oedd rhai ymatebwyr a nododd effaith gadarnhaol y cynnig o'i blaid yn gyffredinol.

ATODIAD F

Archwiliad o'r ymatebion o ddigwyddiadau ymgynghori Cyngor yr Ysgol a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, yn ogystal â Fforwm Sir y Fflint Ifanc.

Ymgynghoriad â Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Crynodeb

1)

a) Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

Ymatebion
• Ein hathrawon • Y fferm • Nofio • Diwrnod Mabolgampau • Y teithiau rydym ni'n mynd arnynt • Pynciau rydym ni'n eu dysgu e.e. llythrennedd digidol, pynciau, mathemateg a llythrennedd. • Ffrindiau a chymuned

b) Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?

Ymatebion
• Dysgu mwy o fathemateg • Cael mwy o adnoddau ar gyfer cylch chwarae'r goedwig • Gwneud ychydig mwy o chwaraeon • Gallu mynd ar fwy o deithiau

2) Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

Ymatebion
• Fe allem ni wneud ffrindiau newydd • Bydd yr ysgol yn fwy • Cael athrawon newydd • Fe allem ddysgu mwy bynciau • Byddai gennym stwff newydd

3) Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

Ymatebion
• Gorfod gwneud ffrindiau newydd • Bydd yn anodd dod o hyd i'r dosbarthiadau • Bydd yn cymryd rhy hir i'w adeiladu

- Mae’n rhy bell o Ysgol Goffa Wood
- Byddai’r diwrnod cyntaf yn ddychrynllyd gan na fyddem yn adnabod unrhyw un na’r adeilad
- Gorfod cerdded i’r ysgol newydd
- Colli ffrindiau ac athrawon

4) A oes unrhyw beth arall rydych chi’n meddwl y ddylai ddigwydd?

Ymatebion
• Cadw pethau fel maen nhw • Gwella’r ddwy ysgol fel maen nhw • Rhoi Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Goffa Wood gyda’i gilydd gan eu bod nhw drws nesaf i’w gilydd • Adeiladu’r ysgol yma yn lle • Ychwanegu ysgol fawr yn y canol rhwng y ddwy ysgol

Sylwadau

- Siaradodd disgyblion yn gadarnhaol am eu profiad presennol yn yr ysgol, yn enwedig am werthfawrogi eu hathrawon, cyfeillgarwch, ymdeimlad o gymuned, gweithgareddau cyfoethogi, a chyfleoedd megis nofio, teithiau a digwyddiadau chwaraeon.

- Tra’n ystyried ysgol newydd, fe nododd ddisgyblion nifer o fanteision posibl, gan gynnwys mynediad i adeilad mwy, cyfleusterau ac adnoddau newydd, ystod ehangach o gyfleoedd dysgu, a’r cyfle i wneud ffrindiau newydd.

- Roedd pryderon yn canolbwyntio’n bennaf ar effaith newid, gyda disgyblion yn mynegi pryderon am adael athrawon a ffrindiau cyfarwydd, addasu i amgylchedd newydd, y pellter y byddai’n rhaid iddynt deithio, a symud o gwmpas adeilad ysgol anghyfarwydd.

- Roedd awgrymiadau amgen yn canolbwyntio ar gadw darpariaeth yn lleol, gyda disgyblion yn cynnig gwelliannau i ysgolion presennol, lleoli ysgol newydd yn nes at y gymuned, neu archwilio trefniadau uno gwahanol rhwng ysgolion.

Ymgynghoriad â Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Saltney Wood

Crynodeb

1)

a) Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

Ymatebion
• Y ffrindiau sydd gennym ar hyn o bryd • Tybiau hufen iâ • Y cyri cyw iâr • Y teithiau rydym ni'n mynd arnyn nhw • Mae ysgol llai yn ei gwneud hi'n fwy tawel i fyfyrwyr • Athrawon a Phennaeth • Cyrsiau preswyl a ffrindiau • Maint y dosbarthiadau

b) Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?

Ymatebion
• Mwy o gorneli darllen a llyfrau • Mwy o deganau gwingo • Dodrefn gwell • Dognau mwy o fwyd • Mwy o gaeau a goliau pêl-droed • Bwydlen ginio well • Mwy o gemau ac offer i'r maes chwarae

2) Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

Ymatebion
• Mwy o bobl i fod yn ffrindiau gyda nhw • Mwy o gaeau pêl-droed • Y byddai'n fwy ac yn fwy modern • Cwrdd â phobl newydd • Tîm mwy ar gyfer digwyddiadau chwaraeon • Adnoddau ac offer newydd

3) Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

Ymatebion
• Byddai'n teimlo'n wahanol ac yn anodd • Ni fydd fel ein hysgol ni • Gorfod gwneud ffrindiau newydd • Fe all rhai athrawon a staff deimlo'n drist a gadael

- Ddim yn gwybod ein ffordd o amgylch yr ysgol newydd
- Fe allem ni golli ein staff caredig iawn a'n Pennaeth
- Fe allai eich ffrindiau wneud ffrindiau newydd a ddim eisiau treulio amser gyda chi
- Dwi ddim yn meddwl y byddai fy mrawd/chwaer yn ei hoffi

4) A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y ddylai ddigwydd?

Ymatebion
• Ailadeiladu Saltney Ferry yn lle • Adeiladu Ysgol Goffa Wood a Saltney Ferry newydd yn lle

Sylwadau

- Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi natur agos-atoch eu hysgol, gan dynnu sylw at gyfeillgarwch, staff cefnogol, teithiau a phrofiadau preswyl, a'r amgylchedd tawelach sy'n gysylltiedig â chymuned ysgol lai.

- Roedd gwelliannau a awgrymwyd i'r ysgol bresennol yn canolbwyntio'n bennaf ar wella adnoddau a chyfleusterau, yn cynnwys deunyddiau darllen, offer cae chwarae, cyfleusterau chwaraeon, dodrefn yr ystafell ddosbarth a darpariaeth arlwyo.

- Fe nododd ddisgyblion nifer o fanteision posibl ysgol newydd, yn cynnwys mynediad i gyfleusterau modern, adnoddau gwell, mwy o adnoddau chwaraeon a'r cyfle i feithrin ffrindiau newydd o fewn cymuned ysgol fwy.

- Roedd pryderon yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith newid a cholli'r hyn sy'n gyfarwydd, a mynegodd disgyblion bryderon am adael eu ffrindiau a staff, addasu i amgylchedd gwahanol, ac ansicrwydd ynghylch sut y gallai symud effeithio arnyn nhw a'u teuluoedd.

Fforwm Sir y Fflint Ifanc 24 Mehefin 2026

<u>Crynodeb o'r sesiwn adborth</u>

Mae Fforwm Sir y Fflint Ifanc yn cynnwys cynrychiolwyr o holl Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint.

Cafodd cyflwyniad yn amlinellu cynigion yr Ysgol Gatholig ac ysgolion ardal Saltney ei gyflwyno, wedi hynny gwahoddwyd cyfranogwyr i drafod a rhannu eu barn am y cynigon. Gofynnwyd i grwpiau nodi a chofnodi manteision ac anfanteision canfyddedig y cynigion o safbwynt dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae crynodeb o'r adborth a gafwyd wedi'i ddarparu o dan y tabl.

1. Eich barn gyffredinol am y cynnig	Nifer
• **Yr wyf yn llwyr o blaid y cynnig** "Mae creu un ysgol yn creu mwy o le." "Fe fydd yn ysgol fodern a byddai cyfuno'r ysgolion yn gwneud synnwyr.	2
• **Ar y cyfan dwi'n cefnogi'r cynnig.** "Byddai'n gwella effeithlonrwydd." "Byddai'n anodd i'r disgyblion ymuno ag ysgol newydd." "Os nad ydi'r adeilad yn mynd i gael ei ddefnyddio at rywbeth arall yna does dim pwynt." "Fe fydd yn gwneud yr ysgolion well drwy eu huno." "Mae hygyrchedd i'r safle newydd yn ystyriaeth bwysig." "Mae angen ystyried cost gwisg newydd a theithio i ddisgyblion o Ysgol Gynradd Saltney Ferry." "Mae'r ddwy yn ysgol gynradd gymunedol a dydi un milltir o deithio'n bellach ddim yn hir iawn i ddisgyblion ei deithio." "Pam cael dwy ysgol o fewn milltir pan allwch chi uno?" "Fe allai fod yn anodd rheoli dau adeilad cryn bellter i ffwrdd am y 3 blynedd cychwynnol."	17
• **Dydw i ddim yn siŵr** "Mae'n newid mawr a dydi rhai pobl ddim yn hoffi newid." "Fe allai rhai plant gael trafferth cyrraedd yr ysgol newydd." "Cyn belled a bod yr ysgol newydd yn ddigon mawr ac yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr." "Efallai y bydd yna heriau gyda chludiant a thraffig." "Mae'r ddwy ysgol gynradd yn hen ac angen eu moderneiddio, ac efallai bod gan un niferoedd uchel ac un arall niferoedd isel."	8
• **Ar y cyfan dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig.** "Efallai y bydd yn rhaid i rai disgyblion ddod o hyd i ysgol newydd."	1
• **Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig.** Dim sylwadau	0

2. Effaith ar ddysgwyr

Beth ydych chi'n feddwl fyddai'r cynnig yn ei olygu i ddysgwyr?
Ystyriwch ddysgu, cyfeillgarwch, teithio, lles, cyfleoedd ac arferion dyddiol.

Effeithiau Cadarnhaol:

"Cyfle i wneud ffrindiau newydd a chymdeithasu gyda phobl"

"Adnoddau gwell ac adeilad newydd."

"Adeiladu ysgol gymunedol newydd."

"Gallai mwy o gyfleoedd ddod gydag ysgol newydd."

"Byddai ysgol fwy yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer ysgol uwchradd."

"Amrywiaeth gwahanol o athrawon a phrofiadau addysgu."

Effeithiau negyddol neu bryderus:

"Pellter cerdded i ddisgyblion gan arwain at blant blinedig."

"Gall mwy o blant mewn un lle fod yn cyfyng."

"Llai o brofiad dysgu personol o bosibl yn sgil maint yr ysgol newydd."

"Fe allai hen gyfeillgarwch gael ei dorri."

"Cost gorfod prynu gwisg newydd."

"Gallai newid amharu ar fyfyrwyr sy'n cael trafferth addasu."

3. Effaith ar y gymuned

Sut allai teuluoedd, gwasanaethau lleol a'r ardal ehangach gael eu heffeithio?

Manteision posibl:

"Mwy o arian yn cael ei gyfeirio i gymuned Saltney."

"Bydd pobl yn dod ynghyd ar gyfer digwyddiadau cymunedol ehangach."

"Gall yr ysgol dderbyn mwy o blant."

"Cyfleusterau newydd a deliach i blant."

"Gallai mwy o bobl ar y stryd fawr roi hwb i fusnesau lleol."

"Fe allai'r hen adeiladau gael eu troi mewn i lefydd â defnydd cymunedol."

Heriau posib:

"Fe allai swyddi gael eu colli."

"Fe allai teuluoedd fod yn treulio mwy o amser yn teithio."

"Fe allai'r adeilad gael ei adael."

"Fe allai olygu llawer mwy o draffig ar y ffyrdd."

"Bydd rhai cymunedau yn colli eu hysgol."

"Ni fyddai'n hawdd newid ysgol os ydynt yn anhapus."

"Anawsterau gyda theithio i'r safle newydd."

3. Effaith ar y gymuned

Sylwadau

- Roedd adborth yn cynnwys barn gadarnhaol o'r cynnig, ac roedd mwyafrif y cyfranogwyr naill ai'n cefnogi'r cynlluniau'n llawn neu'n gymharol gefnogol ohonynt, gan nodi manteision dod â dwy ysgol ynghyd mewn amgylchedd dysgu modern.

- Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y potensial ar gyfer cyfleoedd addysgiadol gwell, yn cynnwys mynediad at gyfleusterau gwell, adnoddau gwell, amrywiaeth ehangach o arbenigedd addysgu, ac amgylchedd ysgol allai baratoi dysgwyr yn well ar gyfer yr ysgol uwchradd.

- Cafodd y cyfle i ddysgwyr ddatblygu cyfeillgarwch newydd a dod yn rhan o gymuned ysgol fwy ei nodi fel mantais bwysig, er mynegwyd pryderon hefyd am amhariaeth pobl i grwpiau ffrindiau sydd eisoes yn bodoli.

- Daeth teithio a hygyrchedd i'r amlwg fel ystyriaethau pwysig trwy gydol trafodaethau. Amlygodd y cyfranogwyr yr heriau posibl sy'n ymwneud â phellteroedd teithio hirach, trefniadau cludiant, tagfeydd traffig a'r effaith ar arferion dyddiol disgyblion.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am faint yr ysgol arfaethedig, gan nodi y gallai niferoedd uchel y dysgwyr effeithio ar natur bersonol profiadau dysgu ac o bosibl creu pwysau ar gapasiti os nad yw'n cael ei reoli'n ofalus.

- Fe godwyd goblygiadau ariannol ar deuluoedd, yn enwedig mewn perthynas â chostau cludiant a'r gofyniad posibl i brynu gwisg ysgol newydd ar ôl y cyfnod pontio.

- Mae adborth cymunedol yn adlewyrchu cydbwysedd manteision a heriau canfyddedig. Tra bod cyfranogwyr wedi nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o gydlyniant cymunedol, cyfleusterau lleol gwell, a mwy o weithgaredd economaidd, mynegwyd pryderon hefyd ynghylch defnydd safleoedd yr ysgolion yn y dyfodol, colli hunaniaeth ysgol leol, a'r effaith ar gyflogaeth a gwasanaethau lleol.

ATODIAD G

Ymateb i’r cynnig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sy'n ofynnol i weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu ei farn yn unig ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

Crynodeb / Casgliad

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal, o leiaf, y safonau addysg a darpariaeth presennol yn yr ardal.

Disgrifiad a Manteision

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig:

- Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood Memorial o 31 Awst 2027.
- Sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd unedig, a fydd yn gweithredu ar y ddau safle ysgol presennol i ddechrau, o 1 Medi 2027.
- Datblygu, yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chadarnhad o gyllid, ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd bwrpasol gyda lle i 315 o ddisgyblion (gan gynnwys 30 lle meithrin amser llawn cyfwerth) ar safle presennol Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Wood Memorial, gyda dyddiad agor disgwyliedig o 1 Medi 2030.

Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg glir dros y cynnig. Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro bod y cynnig wedi'i ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd ysgol dros ben, gwella ansawdd adeiladau ysgol, sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy, datblygu'r Gymraeg ymhellach a gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae hefyd yn nodi twf cyfyngedig yn nifer y disgyblion yn y dyfodol yn yr ardal, gan ddarparu cyfiawnhad clir dros ad-drefnu'r ddarpariaeth.

Mae'r cynigydd wedi darparu disgrifiad manwl o'r cynnig, yr amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu, yn ogystal â'r trefniadau dros dro sy'n angenrheidiol ar gyfer ei weithredu. Mae hefyd yn nodi amserlen yr ymgynghoriad statudol, y broses gwneud penderfyniadau ac yn egluro y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros dro ar y ddau safle presennol.

Mae'r cynigydd wedi amlinellu'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r ddogfen yn nodi'r manteision addysgol, trefniadol ac ariannol disgwyliedig, tra'n cydnabod anfanteision posibl gan gynnwys aflonyddwch yn ystod y cyfnod pontio, goblygiadau staffio a newidiadau i drefniadau teithio i rai teuluoedd.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn amlygu risgiau allweddol y prosiect, gan gynnwys cyllid, cynllunio, adeiladu, staffio a chydymffurfiaeth gyfreithiol. Ymddengys bod y cynigydd yn cynnig mesurau lliniaru priodol i leihau effaith y risgiau. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn datgan y bydd cyllid a materion cynllunio yn cael eu hadolygu'n gyson, nid yw'r cynigydd yn amlinellu'n glir beth fyddai'n digwydd pe na bai digon o gyllid yn cael ei sicrhau yn y pen draw.

Mae'r cynigydd wedi ystyried dewisiadau amgen addas i'r cynnig ac wedi rhoi rhesymau dros eu gwrthod. Mae'r ddogfen yn egluro bod nifer o opsiynau wedi'u hystyried, gan gynnwys cadw ac adnewyddu'r ysgolion presennol. Daeth i'r casgliad na fyddai'r opsiynau hynny'n mynd i'r afael yn ddigonol â chyflwr gwael yr adeiladau, capasiti dros ben, cynaliadwyedd tymor hir na'r gallu i gael mynediad at fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer cyfleusterau ysgol newydd.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr a hygyrchedd y ddarpariaeth. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys asesiad manwl o bellteroedd teithio, llwybrau cerdded diogel a meini prawf cymhwystra ar gyfer cludiant. Daw i'r casgliad y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau o fewn pellter cerdded i'r ysgol arfaethedig ac y bydd y trefniadau cludiant presennol yn parhau i fod mewn grym, gan gynnwys ystyriaeth o anghenion ychwanegol dysgwyr unigol. Ymddengys bod hyn yn rhesymol.

Mae'r cynigydd wedi dangos yn glir sut y bydd nifer y lleoedd dros ben yn cael eu heffeithio. Mae'r ddogfen yn darparu niferoedd disgyblion presennol a rhagamcanol ac yn dangos y bydd uno'r ddwy ysgol yn lleihau capasiti dros ben yn sylweddol ac yn creu darpariaeth sy'n fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o gynnydd yn y galw y tu hwnt i'r rhagolygon presennol ac yn nodi y bydd cynlluniau'r adeilad yn parhau'n hyblyg ac yn gallu cael eu haddasu yn y dyfodol.

Mae'r cynigydd wedi amlinellu agweddau ariannol y cynnig yn briodol, gan gynnwys y cyllid disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor, ynghyd ag arbedion posibl yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r buddsoddiad cyfalaf amcangyfrifedig, y trefniadau ariannu arfaethedig a'r effeithlonrwydd disgwyliedig o ganlyniad i leihau nifer y lleoedd dros ben.

Fodd bynnag, er bod y ddogfen yn amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, nid yw'n egluro'n glir beth fydd yn digwydd os na ellir sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn ymddangos i ddangos maint unrhyw arbedion refeniw parhaus wedi ystyried costau ariannu'r ysgol newydd. At hynny, gan fod cyllideb ragamcanol yr ysgol newydd yn ymddangos yn gymharol debyg i gyllidebau cyfunol presennol y ddwy ysgol, nid yw mantais ariannol gyffredinol y cynnig o'i gymharu â chadw a gwella'r adeiladau presennol yn gwbl glir.

Mae'r cynigydd wedi darparu manylion am drosglwyddo tir ac adeiladau o bosibl. Mae'r ddogfen yn egluro y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Saltney Wood Memorial ac yn cadarnhau nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch dyfodol safle Saltney Ferry. Byddai'r mater hwnnw'n cael ei ystyried ar wahân yn unol â pholisi'r Cyngor ar dir ac adeiladau dros ben.

Mae'r cynigydd wedi amlinellu'n glir sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r cyfnod ymgynghori, y dulliau ymateb, manylion cyswllt a'r broses statudol ddilynol, gan

gynnwys cyhoeddi adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol, cyfnod gwrthwynebu a threfniadau gwneud penderfyniadau terfynol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Daw'r ddogfen i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol andwyol ar ddarpariaeth Gymraeg ac mae'n cadarnhau ymrwymiad parhaus y Cyngor i'w Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi darparu Asesiad Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

Agweddau Addysgol y Cynnig

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg, gan gynnwys addysgu a dysgu. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried manteision addysgol y cynnig, gan gynnwys amgylcheddau dysgu gwell a mwy o gyfleoedd i rannu arferion effeithiol drwy un ysgol. Daw'n rhesymol i'r casgliad y disgwylir i'r newidiadau hyn gynnal o leiaf y safonau presennol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried gwybodaeth o'r adroddiadau Estyn diweddaraf ar gyfer pob ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ganfyddiadau'r arolygiadau diweddaraf gan Estyn ac yn datgan bod y ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu safon dda o addysg. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad hwn yn ymddangos i gydnabod y pryderon hanesyddol mewn perthynas ag un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Bu'r ysgol honno'n wynebu heriau sylweddol yn y gorffennol ac nid yw ond yn ddiweddar wedi cael ei thynnu oddi ar weithdrefnau dilynol Estyn.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar arwain a gwella. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'n briodol fanteision sefydlu un tîm arweinyddiaeth ac un strwythur llywodraethu i ddarparu mwy o gapasiti strategol a chynaliadwyedd tymor hir. Daw i'r casgliad rhesymol y byddai hyn yn cryfhau gwelliant ysgol ac arweinyddiaeth ar draws yr ysgol newydd.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgolion yr effeithir arnynt i ddarparu'r cwricwlwm llawn. Daw'r ymgynghoriad yn rhesymol i'r casgliad y byddai'r ysgol newydd mewn sefyllfa well i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru drwy gyfleusterau a chyfoeth adnoddau dysgu gwell. Mae hefyd yn ystyried yr effaith ar ysgolion cyfagos ac yn dod i'r casgliad bod digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer unrhyw newid yn newisiadau rhieni.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar lesiant, gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r ddogfen yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgolion achosi ansicrwydd i ddysgwyr a theuluoedd ac yn egluro y bydd trefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n ofalus i gefnogi lles disgyblion a sicrhau parhad gofal bugeiliol drwy gydol y broses.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r ddogfen yn cynnwys ystyriaeth o ddysgwyr ag ADY ac yn egluro y bydd dyletswyddau statudol yn parhau i fod yn gymwys drwy gydol yr ad-drefnu. Mae'n cadarnhau y bydd anghenion unigol yn cael eu hasesu a'u cefnogi drwy gynllunio pontio ac yn cyfeirio at Asesiad Effaith ADY ar wahân sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad.

Mae'r cynigydd wedi ystyried sut y bydd aflonyddwch i ddysgwyr yn cael ei leihau. Mae'r ymgynghoriad yn egluro y bydd trefniadau pontio yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau parhad dysgu, llesiant a chefnogaeth fugeiliol. Mae hefyd yn datgan y bydd yr ysgol unedig yn gweithredu fel un gymuned ysgol yn ystod y cyfnod dros dro, gyda rhannu arweinyddiaeth, polisïau ac ethos, ac y bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy gydol y broses weithredu.

Ffactorau Ychwanegol - Ffactorau Penodol wrth Ystyried Cau Ysgolion

Mae'r cynnig yn ystyried trefniant dros dro ar draws mwy nag un safle yn ystod y cyfnod pontio ac yn egluro pam mae adnewyddu'r ysgolion presennol wedi'i ddiystyru. Er nad yw'r ddogfen yn ystyried yn benodol fodelau trefniadol amgen, megis trefniadau canolfan gymunedol neu gydleoli gwasanaethau cyhoeddus yn yr adeiladau ysgol presennol, mae hyn yn ymddangos yn rhesymol o ystyried y problemau presennol o ran cyflwr ac addasrwydd sydd wedi'u nodi yn y ddau safle.

ATODIAD H

Yr ymateb i'r cynnig a gafwyd gan undeb addysgu - Undeb Addysg Cenedlaethol.

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol Rhanbarth Sir y Fflint

Ysgrifennydd Rhanbarth a Changen: Cheryl Latham
E-bost: cheryl.latham@neu.org.uk

15.07.2026

Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) yn credu fod pob plentyn yn haeddu mynediad i addysg gynhwysol o ansawdd uchel a gydag adnoddau llawn yn eu cymuned leol. Mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg wedi ei wreiddio yn egwyddorion tegwch, cyfle a lles ar gyfer pob dysgwr.

Rydym wedi ymrwymo i:
- Amddiffyn hawl pob plentyn i gael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel, sy'n meithrin a sy'n eu hysgogi.
- Cefnogi ysgolion lleol fel asedau cymunedol hanfodol sy'n meithrin y synnwyr o berthyn, hunaniaeth a dysgu gydol oes.
- Gwrthwynebu anghydraddoldeb addysgol, yn arbennig pan fo cynigion yn effeithio plant o gefndiroedd difreintiedig yn anghyfartal neu'r rhai hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau fod penderfyniadau yn ymwneud ag adrefnu ysgolion yn cael eu gwneud yn dryloyw, yn ddemocrataidd ac er y lles gorau i ddisgyblion, staff a chymunedau - ac nid wedi eu gyrru gan gyfleustra ariannol neu weinyddol yn unig.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydym yn galw ar Gyngor Sir y Fflint i gynnal y gwerthoedd hyn a gosod anghenion plant, teuluoedd ac addysgwyr yn graidd i'r broses o wneud penderfyniadau.

Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad – Ad-drefnu Ysgol Saltney

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb ffurfiol i'r cynllun arfaethedig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Nid yw Undeb Addysg Cenedlaethol Sir y Fflint yn gweld unrhyw fudd addysgol i'r cynigion. Dim ond cael effaith niweidiol ar addysg a newidiadau bywyd disgyblion yn yr ardal fydd y newidiadau arfaethedig yn ein barn ni.

Mae'r staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry wedi gweithio'n galed i wella presenoldeb yn yr ysgol. Maent yn gwybod na fydd nifer yn teithio i'r safle newydd arfaethedig yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Fe fyddant yn cael eu colli o ran addysg ffurfiol. Mae Ysgol Saltney Ferry mewn sefyllfa gref rŵan ac yn arwain mewn meysydd dysgu ble mae ysgolion eraill yn ceisio dod i rannu arferion da, mae niferoedd y disgyblion ar eu huchaf ac nid yw'r ysgol mewn diffyg ariannol. Mae presenoldeb yr ysgol gyfan wedi gwella. Mae angen gweithio gyda theuluoedd i ofyn iddynt deithio pellter byr, yn bennaf oherwydd rhwystrau economaidd-gymdeithasol. Bydd symud ysgol yn difrodi'r ffigwr hwn ac o ganlyniad y disgyblion a theuluoedd diamddiffyn.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry, gan gynnwys y fferm sydd newydd ei sefydlu, yn gwasanaethu'r disgyblion yn dda. Mae maint yr ysgol hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 44% o ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 24. % Gynlluniau Datblygu Unigol.

Hefyd mae gan Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood gyfleusterau rhagorol i ddarparu ar gyfer anghenion ei disgyblion. Mae 37% o ddisgyblion yr ysgol yn cael Prydau Ysgol am Ddim ac mae gan 12% Gynlluniau Datblygu Unigol. Mae'r disgyblion yn cael y gefnogaeth maent ei angen. Ni fyddant yn cael yr un lefel o gefnogaeth a sylw mewn ysgol fwy.

Mae maint yr ysgol a'r syniad o leoedd dros ben (er bod ymweliad â'r ysgol yn awgrymu eu bod yn berffaith ar gyfer y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr) yn cael ei bortreadu fel gwendid tra'i fod yn gryfder. Nid ydym yn ystyried ysgolion bach iawn gyda nifer y disgyblion prin yn ddigid dwbl. Mae gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry 116 ar y gofrestr ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood 147. O ran niferoedd disgyblion mewn perthynas â metr sgwâr y cynllun llawr fesul disgybl, o ble mae'r cyfrifiad/proses yma'n deillio, ac ydyw'n ystyried y cwricwlwm newydd lle mae disgyblion yn gallu symud o gwmpas fwy na maen nhw wedi gallu gwneud o'r blaen? Ein pryder yw fod hyn wedi cael ei ddefnyddio i wthio'r naratif nad yw niferoedd y disgyblion yn ddigonol ar gyfer yr adeilad, ond mewn gwirionedd efallai nad ydyw wedi ystyried sut mae disgyblion yn defnyddio'r gofod dysgu.

Dylai'r Awdurdod Lleol ddefnyddio gwariant cyfalaf i wneud gwelliannau i'r ddau safle. Byddai hyn yn sylweddol lai na'r gwariant cyfalaf ar adeilad newydd (er gwaethaf unrhyw arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru). Byddai hyn yn costio llai ac yn adeiladu ar gryfderau presennol y ddwy ysgol heb danseilio addysg y disgyblion.

Byddai hunaniaeth Gymreig yn cael ei erydu. Gall teuluoedd gael tocyn bws am dim i ysgol Saesneg ac felly yn tanseilio'r holl waith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig.

Rydym yn bryderus iawn am ddiogelwch llwybrau teithio. Mae'r cynnig yn cymryd fod yna lwybrau cerdded diogel yn bodoli ond mae'n ddiffygiol o ran archwiliadau diogelwch neu asesiadau traffig. Byddai'r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn golygu y byddai plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd yn gorfod cerdded (neu feicio neu fynd ar sgwter) ar hyd un o'r prif ffyrdd cymudo sy'n cysylltu Sir y Fflint gyda Swydd Gaer. Mae swyddogion o'r Undeb Addysg Cenedlaethol wedi ymweld â'r ddwy ysgol, wedi gwneud y daith, ac mae'r peryglon posibl yn sylweddol.

ATODIAD I

Yr ymateb i'r cynnig a baratowyd ar gyfer ac a dderbyniwyd gan RhAG.

Swyddfa Mudiad Meithrin,
11 Tŷ Nant Court,
Treforgan,
Caerdydd,
CF15 8LW.

Ymateb Rhieni dros Addysg Gymraeg i'r Ymgynghoriad ar Uno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol mewn perthynas â chapasiti ysgolion, newid demograffig a sicrhau adeiladau addysgol addas ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae gennym bryderon sylweddol ynghylch ansawdd a chadernid yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r cynnig.

Yn ein barn ni, nid yw'r asesiad yn dangos yn ddigonol sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at ddyletswyddau strategol Cyngor Sir y Fflint i hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chefnogi twf addysg Gymraeg.

Diffyg Cysylltiad â Strategaethau'r Cyngor Ei Hun

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n gyhoeddus drwy ei Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2025–2030 i gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint i 15% erbyn 2030 a chreu sir fwy dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.

Yn yr un modd, mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Sir y Fflint yn nodi ymrwymiad clir i gynyddu nifer a chanran y dysgwyr sy'n derbyn addysg Gymraeg, cryfhau sgiliau Cymraeg pob dysgwr, a sicrhau bod datblygiadau moderneiddio ysgolion yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050.

Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn dangos sut y bydd y buddsoddiad o £12.5 miliwn mewn ysgol newydd yn Saltney yn cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion hyn, nac yn nodi unrhyw fesurau lliniaru sydd wedi'u bwriadu i helpu i'w cyflawni.

Methiant i Fanteisio ar Gyfle Strategol

Mae'r Cyngor yn cydnabod yn ei asesiad ei hun fod Saltney ymhlith yr ardaloedd â'r lefelau isaf o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sir, ac yn wir yng Nghymru, gyda dim ond 6.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Mae'r asesiad hefyd yn disgrifio'r ardal fel un o sensitifrwydd ieithyddol.

Mae RhAG yn credu bod hyn yn gwneud ystyriaeth o'r Gymraeg yn bwysicach fyth yn y broses benderfynu hon.

Pan fo awdurdod lleol yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith addysgol newydd mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn arbennig o wan, dylid defnyddio'r prosiect hwnnw fel cyfle strategol i gryfhau statws, gweledded a defnydd y Gymraeg. Nid yw'r asesiad yn dangos sut y bydd hyn yn digwydd.

Dull Goddefol yn Hytrach na Dull Rhagweithiol

Mae RhAG yn pryderu bod yr asesiad yn trin twf y Gymraeg fel rhywbeth a allai ddigwydd o ganlyniad i'r prosiect, yn hytrach na rhywbeth y dylid cynllunio'n fwriadol ar ei gyfer.

Mae'r ddogfen yn cynnwys cyfeiriadau cyffredinol at gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ymrwymiadau pendant, targedau na chamau gweithredu penodol.

Yn benodol, nid oes eglurder ynghylch:

- sut y bydd y prosiect yn cefnogi amcanion y CSGA;
- sut y bydd yn cyfrannu at darged y Cyngor o gyrraedd 15% o siaradwyr Cymraeg;
- sut y bydd yn hyrwyddo addysg Gymraeg ymhlith teuluoedd lleol;
- sut y bydd yn cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn Saltney; na
- sut y bydd unrhyw effaith gadarnhaol yn cael ei monitro neu ei gwerthuso.
- Addysg Gymraeg yw'r Ffordd Fwyaf Effeithiol o Greu Siaradwyr Cymraeg Newydd

Mae polisi Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir y Fflint yn cydnabod mai'r system addysg yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a sicrhau twf hirdymor yr iaith.

O safbwynt RhAG, dylid asesu pob penderfyniad mawr ynghylch trefniadaeth ysgolion yng nghyd-destun ei gyfraniad at ehangu defnydd a chyrhaeddiad addysg Gymraeg, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion diweddaraf.

Nid yw'r asesiad hwn yn gwneud hynny. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio'r sefyllfa bresennol a rhestru polisïau'r Cyngor, heb ddangos sut y bydd y cynnig yn cyfrannu'n uniongyrchol at gryfhau'r Gymraeg yn yr ardal nac ar draws y sir.

Casgliad

Barn RhAG yw nad yw'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn bodloni disgwyliadau Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026, nac yn adlewyrchu uchelgais y Strategaeth Hybu'r Gymraeg na'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod Saltney yn ardal lle mae'r Gymraeg yn arbennig o fregus. Mae hefyd wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ehangu addysg Gymraeg a sicrhau bod datblygiadau addysgol yn cyfrannu at yr amcanion hynny.

Fodd bynnag, nid yw'r asesiad yn dangos sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiadau hynny.

Felly, mae RhAG yn galw ar Gyngor Sir y Fflint i adolygu'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac i ddangos yn glir sut y bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at dwf y Gymraeg, yn hyrwyddo addysg Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Saltney ac ar draws Sir y Fflint yn ehangach.

Ceir cyfle yma i ystyried addysg Gymraeg fel rhan o'r ad-drefnu hwn ac, yn wir, fel rhan o ad-drefnu addysg Gatholig sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Mae cyfle gwirioneddol i ystyried datblygu addysg Gymraeg mewn ardal newydd o'r sir ochr yn ochr â'r ad-drefniadau hyn, a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach gyda chi.

Elin Maher

Cyfarwyddwr Cenedlaethol

Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)

elin@rhag.cymru

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses hon.